# Prosbectws y Chweched Dosbarth

## Sixth Form Prospectus (2024-2026)




YSGOL GYMRAEG
BRO MORGANNWG

# Gair y Pennaeth
## Headteacher's Welcome



**Mr Rhys Angell Jones**

Pennaeth | Headteacher

**Annwyl Rieni, Gofalwyr a Disgyblion,**

Mae'n bleser gen i gyflwyno Llyfr Opsiynau Cyfnod Allweddol 5 ar gyfer 2024-26 sydd yn manylu ar y cwricwlwm a chyfleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Yn ein Chweched Dosbarth mae traddodiad hir o ragoriaeth academaidd ac ymrwymiad myfyrwyr, ac rydym yn addasu yn gyson fel ein bod yn mynd o nerth i nerth. Ymdrechwn i fod mor gynhwysol â phosib a gwerthuswn ein cynnig cwrciwlaidd yn flynyddol er mwyn darparu ar gyfer bob plentyn. Mae'r penderfyniad i barhau yn ein hysgol ar gyfer y Chweched Dosbarth yn fuddsoddiad sylweddol ar eich rhan chi, fel rhieni. Ein haddewid yw y byddwn yn parhau gyda'n disgwyliadau uchel, o fewn diwylliant Cymreig, a'n safon uchel o ofal ar gyfer eich plentyn. Byddwn yn gweithio yn ddiflino i gynorthwyo eich plentyn i gyrraedd copa ei fynydd, boed hynny yn y byd gwaith, yn brentisiaeth neu wrth fynd i'r brifysgol. Mae ein staff yn adnabod ac yn deall ein disgyblion, a thrwy eu haddysgu mewn grwpiau bach yn y Chweched Dosbarth mae'r berthynas yma yn cryfhau. Rydym yn awyddus bod ein disgyblion yn aelodau brwd o gymuned yr ysgol a'r gymuned leol ac mae cyfleoedd niferus iddynt gyfrannu ac i ddatblygu'r ymdeimlad o berthyn. Ychwanegir at hyn gan ein cyfleoedd allgyrsiol anhygoel sydd yn cyfoethogi'r profiadau academaidd a'r dysgu ac addysgu rhagorol mewn gwersi. Cynigir adnoddau i'ch plentyn fedru astudio'n annibynnol, cymryd mantais o'r adnoddau chwaraeon arbennig a chymdeithasu gyda chyfoedion yn ardaloedd y Chweched Dosbarth. Mae'r Chweched Dosbarth yn arwain disgyblion eraill, ac yn hanfodol bwysig i wead yr ysgol. Edrychaf ymlaen at groesawu ein Blwyddyn 11 presennol i'r Chweched Dosbarth ym mis Medi, yn barod ac yn gyffrous i gymryd y cam nesaf gyda ni.

**Dear Parents, Carers and Pupils,**

It is my pleasure to introduce the Key Stage 5 Options Booklet for 2024 – 26 which details the curriculum and opportunities at Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. There is a long tradition of academic excellence and student commitment in our Sixth Form, and we are constantly evolving so that it goes from strength to strength. We strive to be as inclusive as possible and to review our curriculum offer annually so that we can provide for all our students. The decision to continue in our school to study in the Sixth Form is a significant investment on your part, as parents. Our promise to you is that we will continue with our high expectations, set within our Welsh culture, and our high standard of care for your children. We will work tirelessly to help your child to reach their mountain top, be that employment, apprenticeships or university. Our staff know and understand the pupils, and through teaching them in small groups in the Sixth Form that relationship is only strengthened. We want our pupils to be members of the school and the local community and there are endless opportunities for them to contribute and to feel that sense of belonging. This is aided by our outstanding extra-curricular opportunities to complement the excellent standards of teaching and learning in the classroom. Finally, the school itself has become a modern building, full of potential. The resources we can now offer ensure that your child will be able to study independently, to take advantage of state-of-the-art sporting facilities, and to socialise comfortably in the Sixth Form areas. The Sixth Form will lead all other pupils, and as such are a vital part of the fabric of the school. I look forward to welcoming our current Year 11 to the Sixth Form in September, ready and excited to take this next step with us.

# Y Chweched Dosbarth
## The Sixth Form





**Fel y gwyddoch 'Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd' yw arwyddair yr ysgol. Credwn yn gryf mai'r arwyddair hwn yw gwraidd ein Chweched Dosbarth.** Fe blennir yr ethos uchelgeisiol hwn wrth i bob disgybl gyrraedd yr ysgol ym mlwyddyn 7. Ein nod ni yw gwireddu hyn yn ein Chweched Dosbarth, wrth i'n myfyrwyr gyrraedd penllanw eu taith yma, drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae perthyn i ethos ofalgar yr ysgol yn parhau yn y Chweched drwy ein hadnabyddiaeth gref o bob disgybl. Mae hyn yn ein galluogi i gynghori ein myfyrwyr yn y broses o bontio i'r Chweched yn ogystal â chynnig y cymorth bugeiliol rhagorol yn ystod y ddwy flynedd. Mae lles pob disgybl yn flaenoriaeth i ni wrth iddynt gamu i'r cyfnod newydd, cyffrous hwn. Caiff pob myfyriwr arweiniad dyddiol gan Diwtor Personol profiadol sy'n rhan o dîm eang o gefnogaeth. Fel Penaethiaid y Chweched, ymfalchÏwn yn ein cyfathrebu effeithiol a chyson rhwng yr ysgol a'r cartref sy'n hanfodol wrth i ni ofalu am les a chynydd academaidd pob disgybl o dan ein gofal.

Cynigwn ystod eang o gyrsiau yn y Chweched er mwyn teilwra ar gyfer ein disgyblion sy'n rhan o gymuned yr ysgol. Hyderwn ein bod yn cynnig cwricwlwm eang a chaniateïr i bob myfyriwr gyrraedd pen eu taith boed hynny'n fyd gwaith, prentisiaeth neu fywyd prifysgol. Mae ein rhaglen bontio i'r Chweched yn sicrhau bod pob disgybl ym mlwyddyn 11 wedi cynllunio'i llwybr personol hwy ar gyfer y dyfodol. Rydym yn falch iawn o gefnogaeth ein disgyblion presennol yn y Chweched dosbarth, a'u lleisiau hwy sy'n ddolen gyswllt bwysig i Flwyddyn 11 wrth iddynt gamu i addysg yn y Chweched. Disgwyliwn i bob myfyriwr ddangos safonau uchel o Gymreictod, parch a pharodrwydd er mwyn llwyddo yn eu hastudiaethau. Mae bod yn rhan o gymuned y Chweched yn fraint ac yn gyfle i fod yn fodel rôl i gymuned yr ysgol gyfan.

Datblygir ein myfyrwyr i fod yn unigolion iach, hyderus ac uchelgeisiol sy'n rhan allweddol o fywyd y Cynradd hyd at yr Uwchradd. Mae pob disgybl yn elwa'n fawr o'r ddarpariaeth eang o brofiadau a gynigir iddynt fel aelod hŷn yr ysgol. Mae Pwyllgorau'r Chweched Dosbarth yn gyfle gwych i arwain, cyd-weithio a mwynhau bod yn rhan o hyrwyddo elfennau o Gymreictod, Pontio, Cydraddoleb, Iechyd a Lles, Eco, Elusennol a Chyfathrebu. Yn ogystal, mae plant iau'r ysgol yn buddio'n fawr o gefnogaeth ein Swyddogion Llythrennedd, Mentoriaid Mathemateg, Mentoriaid Lles, Swyddogion Teithiau a llawer mwy. Byddant yn ymgymryd â'r rolau yma yn eu hamser gwirfoddol gan gadw at safonau uchel o barch.

Atgyfnerthir hyn oll yn ein Cytundeb i'r Chweched Dosbarth sy'n sicrhau safonau o'r radd flaenaf. Mae parch, prydlondeb a pharodrwydd yn rhan allweddol o lwyddiant pob unigolyn yn y Chweched sy'n rhan annatod o daith disgybl yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Anelwn ein myfyrwyr at y copa, wrth arwain a chefnogi eraill ar hyd eu taith i wynebu heriau'r dyfodol yn hyderus a'n annibynnol.







**You will no doubt be aware that 'Give me your hand and we shall go to the mountain top' is the school motto. We believe that this motto reflects the ethos of our Sixth Form.** The seed of this ambitious ethos is planted as pupils join us in Year 7. Our aim is to further embed this in the Sixth Form, as our students reach the end of their journey with us, all through the medium of Welsh. A sense of belonging within the school continues in the Sixth Form through our understanding of every pupil. This relationship enables us to advise our students in the process of transition to the Sixth Form and then to support them by offering exceptional pastoral care throughout the two years. The wellbeing of each student is a priority for us as we take the step together to this new, exciting period. Each pupil will receive daily guidance from an experienced Personal Tutor who is also part of a wider team of support. As Heads of Sixth Form, we take pride in the effective and consistent communication between school and home, which is crucial in order to provide for the wellbeing and academic progress of each pupil in our care.

A wide range of courses is offered in the Sixth Form so that our provision is tailored to each member of our school community. We are confident that we offer a broad curriculum, and that each student is enabled to reach the end of their journey, be that employment, apprenticeships or university. Our transition programme for the Sixth Form ensures that all pupils in Year 11 will have planned their own personal journey for the future.

We are very proud of the support provided by current members of the Sixth Form, and their voices provide a valuable link for Year 11 as they make the transition. We expect all students to maintain high standards of respect within the Welsh culture and to show the willingness to succeed in their studies. To be part of the Sixth Form community is a privilege and an opportunity to be a role model for the school community.

Our students develop to be healthy confident individuals who play a key part in  secondary and primary school life. Each pupil benefits extensively from the broad range of activities provided and the experiences they enjoy as an older member of the school community. The Sixth Form committees offer an excellent opportunity to lead, to work with others and to enjoy playing a part in promoting elements of Welsh culture and equality, enabling smooth transition, raising money for charities and raising awareness of ecological concerns. In addition, younger pupils benefit from the support of our Literacy Mentors, Mathematics Mentors, Wellbeing Mentors, Trip volunteers and many more voluntary roles. Sixth Form students carry out their voluntary work in their hour that is allotted to them on their timetables. All activities reflect the ethos of respect that pervades the Sixth Form.

These values and practices are strengthened by our Sixth Form Contract which ensures the highest standards. Respect, punctuality and willingness are key aspects of the success of every student in the 6th Form and have been at every step of the journey. We aim for the mountain top, by leading and supporting others on their journey, to face the challenges and opportunities of the future with confidence and independence.

**Mrs Bethan Morgan and Mr Owain Rowlands**

Penaethiaid Chweched | Heads of Sixth Form

# Y Chweched a Chi

## The Sixth Form and You



**Mae bod yn aelod o flynyddoedd 12 a 13 yn brofiad arbennig. Daw breintiau a chyfrifoldebau newydd fydd yn rhoi blas gwahanol i'r profiad o fod yn perthyn i gymuned yr ysgol.** Ond byddwch yn parhau, wrth gwrs, yn aelod integredig o'r ysgol, a byddwch yn atebol i gyfarwyddyd a chyngor fel pawb arall. Credwn mai'r cyfuniad hwn sy'n darparu orau ar gyfer myfyrwyr ôl-16. Er mwyn sicrhau eich bod yn gwneud y penderfyniadau iawn cyn ymuno â ni, hoffwn gyflwyno'r llawlyfr yma ar eich cyfer.

Ein prif nod ym mlynyddoedd 12 a 13 yw paratoi myfyrwyr ar gyfer cyfrifoldebau a rhyddid bywyd oedolion. I'r diben hwn, anelwn at:

• sicrhau mynediad agored i bawb sy'n dewis dychwelyd ar ddiwedd blwyddyn 11

• gynnig amrywiaeth o gyrsiau, ynghyd â chyngor priodol, i gwrdd â gwahanol anghenion a galluoedd myfyrwyr

• gefnogi cynnydd pob myfyriwr i'w lawn botensial,

• gefnogi datblygiad personol pob myfyriwr a gwersi iechyd a lles a meddyliol trwy wersi addysg grefyddol, corfforol, personol a chymdeithasol.

• ddatblygu'r sgiliau allweddol, sgiliau craidd a'r rhinweddau personol hynny y bydd galw amdanynt yn y dyfodol, megis cyfathrebu, cymhwysedd rhif, technoleg gwybodaeth, gweithio gydag eraill, gwella hunan-berfformiad, datrys problemau, hunan-ddisgyblaeth, trefnusrwydd a hyder.

• gynnig amrywiaeth o brofiadau cymdeithasol / diwylliannol tra'n cadarnhau'r ymwybyddiaeth o falchder mewn Cymreictod.

• greu awyrgylch sy'n gweddu i gynnydd academaidd a datblygiad personol y myfyrwyr.

• ddarparu'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

**Being a member of years 12 and 13 is a special experience. New privileges and responsibilities give rise to a different outlook on being part of the school community.** However, you will continue to be an integrated member of the school, and will heed guidance and advice like any other member of the school. We believe that this combination is the best provision for post-16 students. To ensure that you are making the correct decisions before joining us, we would like to present this handbook for your deliberation.

Our main aim in years 12 and 13 is to prepare the student for the responsibilities and freedom of adult life. To this end we aim to:

• ensure access to all that decide to return at the end of year 11

• offer a variety of courses, together with the appropriate guidance, to meet the differing needs and abilities of students

• support the progress of every student to his or her full potential

• support the personal development of every student and promote the well being of body and mind through providing religious, physical, personal and social education

• develop the key skills, core skills and personal attributes that will be required in the future, namely communication, application of number, information technology, working with others, improving one's own performance, problem solving, self discipline and confidence

• offer a variety of social and cultural experiences thereby reaffirming the consciousness of pride in the Welsh culture

• create an environment that allows the academic progress and personal development of the student.

• provide the Welsh Baccalaureate Qualification.





# Anghenion Mynediad
## Entry Requirements






### Cyrsiau Safon Uwch Gyfrannol (TAG).

Cyrsiau Safon Uwch Gyfrannol (TAG). Bydd hwn yn ddibynnol ar eich anghenion chi a chyngor gan eich athrawon. Dewch o hyd i'r wybodaeth o fewn y manylion cyrsiau pynciol. Dylech weithio'n galed ym mlwyddyn 11 er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys i'ch pynciau dewisol. Os na fyddwch yn llwyddo i ennill gradd C yn y Gymraeg, Mathemateg neu Saesneg, byddwn yn eich cynghori i ddod o hyd i ffordd i'w hailsefyll. Weithiau mae'n bosib astudio pwnc na wnaethoch ei astudio yn CA4. Os ydych yn ystyried hyn, bydd digon o gyfleoedd i drafod gyda'r Arweinydd Pwnc, Aelodau'r Uwch Dim Arwain ac wrth gwrs gyda Phenaethiaid y Chweched. Byddwn yn trafod addasrwydd y cyrsiau yma ar gyfer eich anghenion chi.

### Advanced Subsidiary courses (GCE).

This will depend on your needs and advice from your teachers. Find the information in the subject course details. You should work hard in year 11 to ensure that you are competent in your chosen subjects. If you fail to achieve a grade C in Welsh, Maths or English, we will advise you to resit these subjects in year 12. Sometimes it is possible to study a subject you did not study at KS4. If you consider this, there will be plenty of opportunities for discussion with the Subject Leader, Senior Leadership Team Members and of course with Heads of Sixth Form. We will discuss the suitability of these courses for your needs. but you should also request a discussion on the suitability for these courses for your needs.

### Cyrsiau Eraill

Dylech gymryd sylw o'r anghenion mynediad clir sydd gan bob pwnc. Dewch o hyd i'r wybodaeth hon o fewn manylion y cwrs. Dylech weithio'n galed ym Mlwyddyn 11 er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys i astudio eich pynciau dewisol.

### Other Courses

You should take note of the clear entry requirements for each subject. You will find these under the course details. You should aim to work really hard in the rest of Year 11 to qualify for your chosen courses.



# Beth Ddylech Chi Wneud Nesaf?
## What Should You Do Next?





**Gwyliwch ein cyflwyniadau pynciol i ddysgu mwy am gynnwys cyffrous y pynciau amrywiol.**

**Watch our subject presentations to have a taste of the exciting course content.**

https://www.ygbm.co.uk/page/?title=Noson+Agored+Rhithiol&pid=342

- Byddwch yn bresennol yn y Gwasanaeth Bontio i'r 6ed gan Benaethiaid y Chweched.
- Holwch eich cwestiynau i aelodau'r Pwyllgor Pontio yn y sesiwn cwestiwn ac ateb.
- Dewch i Noson Agored y Chweched Dosbarth gyda'ch rhieni.
- Gwyliwch y Cyflwyniadau Pynciol ar wefan yr ysgol.
- Darllenwch y prosbectws.
- Penderfynwch ar eich hoff bynciau.
- Dewch i weld ardal y Chweched!
- Meddyliwch am yrfaoedd posib a pha bynciau byddai'n addas.
- Trafodwch eich opsiynau gyda'ch Tiwtor Dosbarth a'ch Athrawon.
- Trafodwch eich opsiynau mewn cyfweliad gyda'r Penaethiaid Chweched ac Aelodau'r Uwch Dim Rheoli.
- Dewiswch eich opsiynau.
- Derbyniwch eich canlyniadau ym mis Awst.
- Dewiswch eich opsiynau terfynol.
- Ymunwch â'r Chweched ym mis Medi!
- Attend the Transition to Sixth Form assembly lead by the Heads of Sixth Form.
- Ask any questions to the current Sixth Formers during a question and answer session.
- Come along to the Sixth Form Open Evening with your parents.
- Watch the Subject Presentations on the school website.
- Explore different subjects in the Prospectus.
- Decide on your favourite topics.
- Come and explore the Sixth Form area!
- Think about possible careers and which subjects are essential.
- Discuss your options with your Form Tutor and Teachers.
- Discuss your options in an interview with Heads of Sixth Form and Members of the Senior Management Team.
- Choose your options.
- Join the Sixth Form in September!

### Oes grantiau ar gael?

Gallwch geisio am lwfans cynhaliaeth addysg (LCA) sy'n cynnig hyd at £30 yr wythnos i'r myfyriwr sy'n astudio am 15 awr yr wythnos neu fwy. Mae yna amodau ariannol arbennig ar gyfer llwyddiant eich cais. Ni fyddwch yn gymwys ar gyfer y LCA os yw cyfanswm incwm eich rhieni yn £30,000 y flwyddyn neu'n fwy.

Cewch fwy o wybodaeth ar linell gymorth Cymru 0845 602 8845 neu http://cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

### Are there any grants available?

You can apply for an education maintenance allowance (EMA) which offers up to £30 per week for students studying for 15 hours per week or more. The success of your application is dependent upon certain financial conditions. You will not qualify for an EMA if the total income of your parents is £30,000 or more per annum.

For more information: Wales EMA Helpline 0845 602 8845 or http://studentfinancewales.co.uk

# Addysg Gorfforol
## Physical Education

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mr Richard Chidley
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 60%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 40%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A* - C TGAU Addysg Gorfforol
Disgwyl eich bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn reolaidd.

A* - C GCSE Physical Education
Regularly expected to take part in extracurricular activities.

### Beth yw Addysg Gorfforol?

Mae'r fanyleb hon wedi'i llunio i ganiatáu i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o addysg gorfforol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Mae'r fanyleb wedi'i chynllunio i integreiddio theori ac arfer gyda phwyslais ar gymhwyso gwybodaeth ddamcaniaethol. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae'r gwahanol gysyniadau damcaniaethol yn effeithio ar eu perfformiad nhw eu hunain drwy integreiddio theori ac arfer. Bydd dysgwyr hefyd yn cael y cyfle i ddatblygu ymwybyddiaeth o faterion cyfoes sy'n berthnasol i addysg gorfforol a chwaraeon yng Nghymru.

### What is Physical education?

This specification has been designed to allow learners to develop an appreciation of physical education in a wide range of contexts. It is designed to integrate theory and practice with an emphasis on the application of theoretical knowledge. Learners will develop an understanding of how the various theoretical concepts impact on their own performance, through the integration of theory and practice. Learners will also have the opportunity to develop an awareness of contemporary issues relevant to physical education and sport in Wales.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Addysg Gorfforol?

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol o gysyniadau addysg gorfforol a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn eu defnyddio mewn sefyllfaoedd newydd a newidiol
- datblygu dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng theori ac arbrofi
- bod yn ymwybodol o'r ffyrdd y mae datblygiadau mewn technoleg gwybodaeth ac offer yn cael eu defnyddio ym maes chwaraeon
- gwerthfawrogi cyfraniadau Addysg Gorfforol i'r gymdeithas
- dod â gwybodaeth at ei gilydd am ffyrdd y mae gwahanol feysydd chwaraeon yn cysylltu â'i gilydd





- cynnal a datblygu eich mwynhad o Addysg Gorfforol a'ch diddordeb yn y pwnc

Bydd y gwersi yn cynnwys cyfnodau dysgu a thrafodaeth dosbarth cyfan/rhannol a gwaith ymarferol ynghyd â chyfnodau tiwtorial unigol, cyflwyniadau gan ddisgyblion a gwaith darllen ac astudio unigol. Cewch eich annog i ddefnyddio amrediad eang o adnoddau gan gynnwys gwerslyfrau'r ysgol, cylchgronnau a meddalwedd perthnasol yn ogystal â'r cyfoeth o wybodaeth sydd i'w gael ar y rhyngrwyd.

### What will I learn whilst studying Physical Education?

- to develop essential knowledge and understanding of the concepts of Physical Education and the skills needed to use these in new and changing situations
- to develop an understanding of the link between theory and practical studies
- to be aware of how advances in information technology and equipment are used in Physical Education
- to appreciate the contributions of Physical Education to society
- to bring together knowledge of ways in which different areas of Physical Education relate to each other
- to sustain and develop your enjoyment of Physical Education and interest in the subject

Lessons will include whole/part class teaching, discussions and practical work, student presentations and individual

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/physical-education/r-gce-asa-physical-education-from-2016

reading and study. You will be encouraged to use a wide range of resources including school textbooks, relevant magazines, newspaper articles and computer software and the wealth of information available through the internet.

### Cynnwys y cwrs:

- Uned 1 Dulliau Bywiog o Fyw ac Addysg Gorfforol
- Uned 2 Gwella Perfformiad mewn Addysg Gorfforol
- Uned 3 Perfformiad, Darpariaeth a Chyfranogiad mewn Addysg Gorfforol
- Uned 4 Mireinio Perfformiad mewn Addysg Gorfforol

### Course Content:

- Unit 1. Active Lifestyles and Physical Education
- Unit 2 Improving Performance in Physical Education
- Unit 3 Performance, Provision and Participation in Physical Education
- Unit 4 Refining Performance in Physical Education

### Gyrfaoedd posib:

Bydd Safon UG/U yn fanteisiol iawn i'r rhai ohonoch sydd â diddordeb mewn unrhyw faes addysg gorfforol e.e. ffisiotherapydd, maethion neu hyfforddiant biomecaneg. Mae'r amrediad o sgiliau byddwch yn datblygu drwy ddilyn y cwrs yma yn rhai fedrwch drosglwyddo i bob math o swyddi ac mae canran uchel o bobl â chymwysterau mewn Addysg Gorfforol yn symud ymlaen i weithio fel rheolydd hamdden, newyddiadurwr chwaraeon, yr heddlu neu'r gwasanaeth tân.

### Possible Careers:

AS/A2 Level would also be advantageous for pupils interested in any area of physical education e.g. physiotherapist, nutritionist or biomechanics coaching .The range of skills that you will develop through this course are transferable to all kinds of work and a large number of people with qualifications in Physical Education proceed to work in the police force, fire service, leisure management and sports journalism.



**Sylwad Disgybl:**

"Mae hi'n ddiddorol cael dysgu am y gwahanol elfennau sydd o fewn Addysg Gorfforol. Mae wedi rhoi cyfle i mi ddysgu sut mae'r corff a'r ymennydd yn cydweithio sydd yn gwneud y cwrs yn gyffrous."

**Pupil Comment:**

"It is fascinating to learn about the different elements within P.E. Studying the course has shown me how the body and brain work together - it's exciting!"

# Athroniaeth Moeseg a Bwdhaeth

## Philosophy, Ethics and Buddhism

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**

https://www.wjec.co.uk/qualifications/religious-studies/r-religious-studies-gce-asa-from-2016/

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Ruth Davies

**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC

**Arholiadau | Examinations:** 100%

**Gwaith cwrs | Coursework:** Dim | None

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Astudiaethau Grefyddol

A*- C TGAU Cymraeg Iaith

A*- C GCSE Religious Studies

A*- C GCSE Welsh Language

### Beth yw Athroniaeth Moeseg a Bwdhaeth (Astudiaethau Crefyddol)?

Ceir dau gamddealltwriaeth cyffredin pan yn sôn am astudio Astudiaethau Crefydd ar gyfer opsiwn UG neu Lefel Uwch. Yn gyntaf, nid pwnc ar gyfer pobl sydd am fod yn leianod na chwaith yn ficer ydyw! Yn ail, nid bwriad y cwrs, na'r athrawes, yw eich troi yn berson crefyddol. Mae'r cwrs yn agored ar gyfer rhai sydd â ffydd grefyddol ac ar gyfer y rhai sydd heb ffydd grefyddol. Am y rheswm yma, nid yw'r cwrs na'r arholiad yn pryderu gyda barnu eich safbwynt personol chi am grefydd.

### What is Philosophy, Ethics and Buddhism (Religious Studies)?

There are two common misunderstandings about the study of religion at A Level. Firstly, it is not a subject taken only by those who want to become monks or nuns! Secondly, it is not the intention of the course or the teacher to make you into a religious person. The course is open to those who have religious faith and those who have none. What you believe is ultimately your concern. For this reason the course and the examination is not concerned with judging your personal religious point of view.



### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Athroniaeth Moeseg a Bwdhaeth?

Byddwch yn cael cyfle i drafod a datrys cwestiynau dwys bywyd, Byddwch yn dysgu prif ffeithiau am Fwdhaeth, Moeseg ac Athroniaeth. Byddwch hefyd yn datblygu eich gallu i drafod a dadlau yn synhwyrol a deallus am broblemau sydd yn codi yn y meysydd hyn. Rhaid i chi gael meddwl agored a pharodrwydd i gwestiynu barn athronyddol amrywiol er mwyn llwyddo yn y cwrs.

### What will I learn whilst studying Philosophy, Ethics and Buddhism?

You will grapple with the ultimate questions which religions seek to answer. You will develop the ability to reason and argue intelligently about issues that arise in relation to these questions. You will also learn important facts from Buddhism, Ethics and Philosophy. To succeed you need to have an open mind and be ready to question a variety of philosophical opinions.

### Cynnwys y cwrs:

• Uned 1 Cyflwyniad i Fwdhaeth

Astudir unigolion crefyddol o bwys a thestunau sanctaidd; cysyniadau crefyddol; bywyd ac arferion crefyddol.

• Uned 2: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg

Adran A: Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg

Bydd yr uned hon yn cynnwys pedair thema yn cynnwys moeseg gymhwysol,

Adran B: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd

Bydd yr uned hon yn cynnwys pedair thema: dadleuon cosmolegol, teleolegol, problem drygioni; a phrofiad crefyddol.

Safon Uwch Blwyddyn 13

• U2 Uned 3: Astudiaeth o Fwdhaeth

Astudir unigolion crefyddol a thestunau sanctaidd, datblygiad cymdeithasol syniadau ac arferion crefyddol sy'n llunio hunaniaeth grefyddol.

• Uned 4: Crefydd a Moeseg

Astudir datblygiadau cyfoes ym maes damcaniaeth foesegol ac ewyllys rydd a phenderfyniaeth.

• Uned 5: Athroniaeth Crefyd

Astudir sialensiau i gred crefyddol, profiad crefyddol ac iaith grefyddol

### Course Content:

• Unit 1: An Introduction to Buddhism: Religious figures and sacred texts; religious concepts; religious life; and religious practices.

• Unit 2: An Introduction to Philosophy of Religion / Religion and Ethics

Section A: An Introduction to Religion and Ethics: Ethical language and thought, Natural Law, Situation Ethics and Utilitarianism.

Section B: An Introduction to Philosophy of Religion: Cosmological and teleological arguments for the existence of God; the non-existence of God ,the problem of evil and religious experience.

A2 Year 13

• Unit 3: Study of Buddhism

Religious figures and sacred texts, significant historical and social development in religious thought, and practices that shape religious identity.

• Unit 4: Religion and Ethics

Ethical language and thought, contemporary developments in ethical theory and free will and determinism.

• Unit 5: Philosophy of Religion

Challenges to religious belief, religious experience and religious language.



### Gyrfaoedd posib:

Mae'r cwmniau a swyddi canlynol yn croesawu ymgeiswyr sydd â lefel UG neu lefel A Astudiaethau crefyddol :- Boots, Marks and Spencer, Y Swyddfa Bost , byrddau nwy a thrydan, yr Heddlu, y Lluoedd Arfog, Nyrsio, Newyddiaduraeth – i enwi ond ychydig. Mae hefyd yn cael ei dderbyn gan Brifysgolion a cholegau ar gyfer cychwyn cyrsiau gradd megis Y Gyfraith, Hanes, Cymraeg, Seicoleg, Cymdeithaseg ac Athroniaeth, yn ogystal â chyrsiau traddodiadol mewn Crefydd a Diwinyddiaeth.

### Possible Careers

Boots, Marks and Spencer, the Post Office, the Gas and Electricity Boards, the Police, the Armed Forces, Nursing, Banking, Journalism to name but a few, welcome applicants with an 'A' level in this subject. Of course, all Universities and Colleges of Education also accept it for entrance to degree courses such as Law, Sociology, History, Welsh, Psychology as well as the traditional Religious Studies and Theology courses.

**Sylwad Disgybl:**

"Wrth astudio Athroniaeth, Moeseg a Bwdhaeth fel lefel A rydw i wedi ehangu fy nealltwriaeth ynglŷn â syniadau amrywiol sy'n ceisio esbonio realiti bywyd yn drylwyr. Roedd cynnal trafodaethau dwys ymysg cyd-ddisgyblion dros y pynciau dan sylw wedi magu diddordeb angerddol mewn athroniaeth a moeseg sydd wedi fy nghynorthwyo i ddatblygu hyder wrth fynegi barn bersonol. Credaf fod astudio'r pwnc fel lefel A wedi ysgogi fi i ddewis dilyn athroniaeth yn y brifysgol, gan fod y cyrsiau lefel A wedi fy ngalluogi i i feithrin goddefgarwch tuag at syniadau a safbwyntiau gwahanol am realiti. Felly dydw i ddim yn gallu aros i astudio'r syniadau yma ym mhellach yn y Brifysgol"

**Pupil Comment:**

"Studying Philosophy, Ethics and Buddhism for A Level has enhanced my understanding of the many ideas that attempt to explain our place in the universe. Participating in deep discussions with my fellow students has ignited a passionate interest in Philosophy and Ethics and consequently helped with my self-confidence when sharing my personal viewpoints. Choosing to study this subject at A Level has inspired me to continue with Philosophy at university level as it has enabled me to develop tolerance and understanding of various ideas and opinions regarding 'What is reality?' I am excited to study these ideas further at university."

# Bioleg
## Biology

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Cari Ormerod
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 100%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 0%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A* - B TGAU Bioleg Haen Uwch

A* - B GCSE Biology Higher Tier



### Beth yw Bioleg?

Astudiaeth o organebau byw, wedi'u rhannu'n lawer o feysydd arbenigol sy'n ymdrin â'u morffoleg, ffisioleg, anatomeg, ymddygiad, tarddiad a dosbarthiad.

### What is Biology?

Biology is the study of living organisms, divided into many specialized fields that cover their morphology, physiology, anatomy, behaviour, origin, and distribution.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Bioleg?

UNED 1. Cysyniadau Sylfaenol a Threfniadaeth

UNED 2. Bioamrywiaeth a Ffisoleg Systemau'r Corff

UNED 3. Egni, Homeostasis a'r Amgylchedd

UNED 4. Amrywiad Etifeddiad ac Opsiynau

UNED 5. Arholiad Ymarferol

Mae'r rhan helaeth o'r addysgu wedi ei seilio ar drafodaeth ar sut mae organebau penodol a'r systemau o fewn yr organebau hynny yn gweithio. Byddwch yn dysgu sut i gymhwyso egwyddorion Biolegol mewn amrediad eang o sefyllfaoedd. Cynhelir gwaith ymarferol yn reolaidd trwy gydol y cwrs a defnyddir hyn fel sail i drafodaethau a datrus probemau.

### What will I learn whilst studying Biology?

UNIT 1. Basic Biochemistry and Cell Organisation

UNIT 2. Biodiversity and Physiology of Body Systems

UNIT 3. Energy, Homeostasis and the Environment

UNIT 4. Variation, Genetics and options

UNIT 5. Practical assessment

Most of the teaching is based on discussing how specific organisms and the systems within these organisms work. You will learn to apply Biological principles in a range of applications. Practical work is undertaken regularly and is used as a basis for discussion and problem solving.



### Cynnwys y cwrs:

- Biocemeg
- Geneteg
- Microbioleg
- Botaneg
- Ffisioleg
- Ecoleg

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/biology-as-a-level

Sganiwch





### Course Content:

- Biochemistry
- Genetics
- Microbiology
- Botany
- Physiology
- Ecology

### Gyrfaoedd posib

Mae Bioleg hefyd yn addas i fyfyrwyr sydd ddim am ddilyn gyrfa wyddonol a gall gael ei gyfuno â diddordebau eraill. Mae cymhwyster mewn Bioleg yn gallu arwain at nifer helaeth o yrfaoedd megis Biotechnoleg, Cadwraeth, Deintyddiaeth, Addysg, Meddygaeth, Nyrsio, Fferyllaeth, Ffisiotherapi, Seicoleg, Chwaraeon a Ffitrwydd, Gwyddorau Fforensig a'r Gwyddorau Milfeddygol.



### Possible Careers:

A qualification in Biology can lead to a range of careers such as Biotechnology, Conservation, Dentistry, Education, Forensic Science, Medicine, Nursing, Pharmacy, Physiotherapy, Psychology, Sports and Fitness and Veterinary Science.

**Sylwad Disgybl:**

Mae astudio Bioleg Lefel A wedi fy ngalluogi i ehangu fy nealltwriaeth a brwdfrydedd am y corff, prosesau biolegol a mwy.

**Pupil Comment:**

My study of A Level Biology has enabled me to expand upon my understanding and passion for the human body, biologicael processes and more.

# Busnes
## Business

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mr J Crimp

**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC

**Arholiadau | Examinations:** 100%

**Gwaith cwrs | Coursework:** 0%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Mathemateg/Rhifedd

A*- C TGAU Busnes (os ydych wedi astudio)

A*- C GCSE Mathematics/Numeracy

A*- C GCSE Business (if studied)



### Beth yw Busnes?

Mae'r pwnc busnes yn galluogi dysgwyr i ymchwilio i fathau a meintiau gwahanol o gyfundrefnau mewn gwahanol sectorau ac amgylcheddau busnes, gan ddefnyddio cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang, yn cynnwys data sy'n berthnasol i amgylchedd busnes Cymru. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gyfannol o fusnes a menter ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd a'r bygythiadau sydd ynghlwm â gweithredu mewn marchnad fyd-eang.

### What is Business?

The subject content enables learners to investigate different types and sizes of organisations in various business sectors and environments, drawing on local, national and global contexts, including data which relates to the Welsh business environment. Learners will develop an holistic understanding of business and enterprise and be aware of the opportunities and threats of operating in a global marketplace.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Busnes?

Bydd disgwyl i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â materion cyfredol ym myd busnes a gallu ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso cyfleoedd a phroblemau busnes cyfoes mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau, gan gydnabod ar yr un pryd sut mae busnesau yn addasu i weithredu mewn amgylchedd busnes dynamig.

Bydd dysgwyr yn dod i ddeall pwysigrwydd rôl busnesau bach yn yr economi yng Nghymru a gweddill y DU. Yn ogystal, byddant yn nodi'r cyfleoedd sy'n bodoli i fentrwyr/ entrepreneuriaid, yn ogystal â phwysigrwydd busnesau sefydledig a chyfundrefnau nad ydynt yn gweithredu ar gyfer elw wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau.

Bydd dysgwyr yn defnyddio nifer o dechnegau dadansoddi, yn cynnwys modelau gwneud penderfyniadau, offer gwerthuso buddsoddiad a dadansoddi cymarebau, i ymchwilio i gyfleoedd a phroblemau busnes er mwyn penderfynu strategaeth fusnes mewn amrywiol gyd-destunau. Bydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau rhifiadol a gwneud penderfyniadau y gellir eu cyfiawnhau gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol wedi'u cymhwyso yng nghyd-destun UG a Safon Uwch Busnes.

Dyma rhai o'r meysydd bydd angen i ddysgwyr astudio yn UG a SU:

- Menter
- Cynlluniau busnes
- Marchnadoedd
- Ymchwil marchnata
- Strwythur busnes
- Lleoliad busnes
- Cyllid busnes
- Derbyniadau a chostau busnes.
- Marchnata
- Cyllid
- Pobl mewn cyfundrefnau (adnoddau dynol)
- Rheoli gweithrediadau.

### What will I learn whilst studying Business?

Learners will be expected to be familiar with current issues in business and be able to investigate, analyse and evaluate contemporary business opportunities and problems in a wide range of contexts, whilst recognising how businesses adapt to operate in a dynamic business environment.

Learners will gain an understanding of the important role played by small businesses in the economy of Wales and the rest of the UK. In addition, learners will identify the opportunities that exist for entrepreneurs, as well as the importance of established business and not-for-profit organisations in providing goods and services.

Learners will apply a number of analytical techniques, including decision-making models, investment appraisal tools and ratio analysis, to investigate business opportunities and problems to determine business strategy in a range of contexts. Learners will be expected to use a range of numerical skills and make justifiable decisions using both quantitative and qualitative methods applied in the context of AS and A level Business.

Here are some of the aspects the pupils will study during this AS/ A level business course:

- Enterprise
- Business plans
- Markets
- Market research
- Business structure
- Business location
- Business finance
- Business revenue and costs
- Marketing
- Finance
- People in organisations (human resources)
- Operations management.

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**

https://www.wjec.co.uk/qualifications/business/r-business-gce-as-a/

**Cynnwys y cwrs:**

Uned 1: Cyfleoedd Busnes

Uned 2: Swyddogaethau Busnes

Uned 3: Dadansoddi Busnes a Strategaeth

Uned 4: Busnes mewn Byd sy'n Newid

**Course Content:**

Unit 1: Business Opportunities

Unit 2: Business Functions

Unit 3: Business Analysis and Strategy

Unit 4: Business in a Changing World

**Gyrfaoedd posib**

Gall ddilyn cwrs Busnes arwain at yrfa mewn ystod eang o ddiwydiannau er enghraifft:

bancio, yswiriant, rhedeg busnes eich hun, marchnata, cyfrifeg, gyfraith busnes, adran gwasnaeth cwsmer, athro/ athrawes busnes, gwaith hyrwyddo/ hysbysebu, gwerthiannau, adnoddau dynol, adwerthu.

**Possible Careers:**

Following a Business course can lead to a career in wide range of industries. Here is a list just to name a few:

banking, insurance, running your own business, marketing, accoutning, business law, customer service deaprtment, business teacher, promotion/ advertising, sales, human resources, retail.



**Sylwad Disgybl:**

Mae'r cwrs Busnes yn un heriol ond un rydw i'n mwynhau. Mae'r gwaith yn sialens ac mae llawer o ffeithiau i'w gofio. Hoffwn i wneud Busnes yn y brifysgol a chredaf fod y gwersi a'r cwrs yma wedi fy mharatoi. Credaf fod y pwnc yn rhoi syniad da o sut mae'r byd busnes yn gweithio a sut mae busnesau yn gweithredu ynddo.

**Pupil Comment:**

The Business course is challenging, but definitely a course I am enjoying. The work is a challenge with a lot of facts to remember. I would like to study a Business course at University and I feel that the lessons and course have helped me prepare. I feel that the subject provides a good insight of how the Business world workes and how businesses run day to day.

# Busnes Cymhwysol (Tystysgrif Lefel 3)
## Applied Business (Certificate Level 3)

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mr J Crimp
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 50%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 50%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

5 TGAU A*-C i gynnwys Cymraeg, Saesneg, a Mathemateg. Disgwylir i ddisgyblion sydd wedi astudio Busnes TGAU i gael o leiaf gradd C yn y pwnc.

Five GCSE A*- C grades include Welsh, English, and Maths. It is expected that pupils who have studied Business Studies at GCSE level have obtained a C grade or above.



### Beth yw Busnes Cymhwysol?

Mae dealltwriaeth o fyd busnes yn berthnasol i'r rhan fwyaf o rolau swydd yn economi'r Deyrnas Unedig. Cynlluniwyd cymhwyster Tystysgrif Gymhwysol Lefel 3 CBAC mewn Busnes ar gyfer Cymru a Lloegr i ddarparu'r wybodaeth, dealltwriaeth a'r sgiliau sylfaenol i ddysgwyr sy'n gysylltiedig â gweithgareddau busnes.

Mae'r pwnc busnes yn galluogi dysgwyr i ymchwilio i fathau a meintiau gwahanol o gyfundrefnau mewn gwahanol sectorau ac amgylcheddau busnes, gan ddefnyddio cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang, yn cynnwys data sy'n berthnasol I amgylchedd busnes Cymru.

### What is Applied Business?

An understanding of the business world is relevant to most job roles within the United Kingdom's economy. This WJEC Level 3 Applied Certificate in Business qualification for England and Wales is designed to provide learners with the underpinning knowledge, understanding and skills associated with business activities.

The subject content enables learners to investigate different types and sizes of organisations in various business sectors and environments, drawing on local, national and global contexts, including data, which relates to the Welsh business environment.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Busnes Cymhwysol?

Ar ddiwedd y ddwy uned byddwch wedi ennill gwybodaeth am yr amrywiaeth eang o gyfundrefnau yn economi'r DU, y rhesymau dros eu bodolaeth a sut maent yn gweithredu. Byddwch hefyd yn gallu gwerthfawrogi'r ffactorau allweddol sy'n helpu'r cyfundrefnau hyn i oroesi a ffynnu yn ein heconomi.

Yn ogystal a hyn, byddwch wedi ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod a natur marchnadoedd, pwysigrwydd ymchwil marchnata, a sut mae cyfundrefnau'n cynllunio'u gweithgareddau marchnata drwy ystyried beth sy'n ffurfio'u 'cymysgedd marchnata'.

### What will I learn whilst studying in Applied Business?

At the end of the units studied you will have gained knowledge of the wide variety of organisations in the UK economy, the reasons for their existence, how they function, and you will be able to appreciate the key factors that help these organisations survive and prosper in our economy.

In addition, you will have gained knowledge and understanding of the range and nature of markets, the importance of market research, and how organisations have to plan their marketing activities by considering what makes up their 'marketing mix'.

Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course
https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/busnes-lefel-3

Sganiwch

### Cynnwys y cwrs:

Mae'r Dystysgrif Gymhwysol mewn Busnes yn cynnwys dwy uned orfodol:

| Rhif yr Uned | Uned | Nod | Asesu | ODA | % |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Y Gyfundrefn-Goroesiad a Ffyniant | Nod yr uned hon yw i ddysgwyr ddeall a gwerthfawrogi sut mae gwahanol gyfundrefnau yn ceisio cyflawni'r nodau allweddol o oroesi a ffynnu yn eu sefyllfa yn y farchnad. | Arholiad ysgrifenedig (Allanol) | 90 | 50% |
| 2 | Marchnata Gweithredol | Nod yr uned hon yw i ddysgwyr ddeall a gwerthfawrogi'r rhan allweddol mae marchnata yn ei chwarae yn llwyddiant cyfundrefn. | Asesiad Dan Reolaeth (mewnol) | 90 | 50% |

### Course Content:

The Applied Certificate in Business is made up of two mandatory units:

| Unit number | Unit | Aim | Assessment | GLH | % |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | The Organisation – Survival and Prosperity | The aim of this unit is for learners to understand and appreciate how different organisations seek to achieve the key goals of surviving and prospering in their market situation. | Written examination (External) | 90 | 50% |
| 2 | Active Marketing | The aim of this unit is for learners to understand and appreciate the key role that marketing has in the success of an organisation. | Controlled Assessment (Internal) | 90 | 50% |

### Gyrfaoedd posib

Un pwrpas sydd gan Tystysgrif Gymhwysol Lefel 3 CBAC mewn Busnes yw defnyddio'r cymhwyster hwn i gefnogi mynediad i gyrsiau gradd addysg uwch, fel:

- Marchnata
- Rheolaeth Marchnata
- Rheolaeth Adwerthu
- Marchnata gyda Chyfathrebu Digidol
- Busnes Rhyngwladol
- Rheolaeth
- Cyllid
- Busnes

### Possible Careers:

One purpose of the WJEC Level 3 Applied Certificate in Business is to use this qualification to support access to higher education degree courses, such as:

- Marketing
- Marketing Management
- Retail Management
- Marketing with Digital Communications
- Business
- International Business
- Management
- Finance/ Business Finance





# Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch
## Advanced Skills Baccalaureate Certificate

Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course
https://www.wjec.co.uk/qualifications/level-3-advanced-skills-baccalaureate-wales

Sganiwch

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mr J Crimp
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 0%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 100%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

Bydd pob disgybl yn astudio Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch.

All pupils will undertake the course

Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch
Advanced Skills Baccalaureate Wales

### Beth yw Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch?

Mae Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Lefel 3) yn gymhwyster arloesol sy'n annog dysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, gan roi cyfleoedd i ddysgwyr ddethol eu meysydd astudio eu hunain wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau Cynllunio a Threfnu; Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau; Creadigrwydd ac Arloesi; ac Effeithiolrwydd Personol.

Mae'r cymhwyster yn helpu dysgwyr i feithrin sgiliau, priodoleddau ac ymddygiadau cymhleth ac yn cynnig profiadau sy'n eu galluogi i baratoi'n well ar gyfer eu cyrchfan yn y dyfodol, boed hynny ym maes addysg uwch, prentisiaethau, hyfforddiant neu gyflogaeth. Bydd y sgiliau y maent yn eu datblygu mewn cyd-destunau perthnasol yn eu paratoi at gyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.

Mae'n canolbwyntio ar ddysgu cymhwysol h.y. caffael a chymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy dasgau pwrpasol wedi'u gosod mewn cyd-destunau sy'n berthnasol ac yn gyfredol ac sy'n annog dysgwyr i gymryd rhan mewn prosesau ymgysylltu beirniadol a sifil, ac i ystyried eu llesiant nhw eu hunain a llesiant pobl eraill.

### What is The Advanced Skills Baccalaureate Wales (Level 3)

The Advanced Skills Baccalaureate Wales (Level 3) is an innovative qualification that promotes learning inside and outside of the classroom, providing learners with opportunities to select their own areas of study whilst advancing their skills of Planning and Organisation; Critical Thinking and Problem Solving; Creativity and Innovation; and Personal Effectiveness.

The qualification helps learners develop complex skills, attributes and behaviours and provides experiences which enable them to be better prepared for their future destination, whether higher education, apprenticeships, training or employment.

It has a focus on applied learning, i.e., acquiring and applying knowledge, skills and understanding through purposeful tasks set in contexts that are relevant and current and that encourage learners to participate in critical and civil engagement, and to consider their wellbeing and the wellbeing of others.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn y Fagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch?

Asesir sgiliau hanfodol megis llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesedd ac effeithiolrwydd personol.

### What will I learn whilst studying the Advanced Skills Baccalaureate Wales?

Skills Baccalaureate Wales develops essential skills such as literacy, numeracy, digital literacy, critical thinking and problem-solving, planning and organisation, creativity and innovation and personal effectiveness. You also become a more independent learner which prepares you well for university and further education.

### Cynnwys y cwrs:

Mae angen i ddysgwyr gwblhau tri asesiad fel rhan o'r Fagloriaeth Sgiliau Cymru:

- Prosiect Unigol (50%)
- Prosiect Cymuned Byd-Eang (25%)
- Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol (25%)

*(Canolbwynt y prosiectau Cymuned Byd-Eang a Chyrchfannau'r Dyfodol fydd agenda datblygiad cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Nodau Llesiant Cymru)*

### Course Content:

Learners need to complete three assessments as part of the Skills Baccalaureate Wales:

- Individual Project (50%)
- Global Community Project (25%)
- Future Destinations Project (25%)

*(Both Global Community and Future Destination projects and course content will be set in the context of the United Nations' sustainable development agenda and Wales's Well-being Goals)*




### Cymwysterau Ategol

Er mwyn ennill Bagloriaeth Sgiliau Cymru ar lefel Uwch, mae'n rhaid i ddysgwyr wneud y canlynol: Ennill TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith (graddau A* - C); Ennill TGAU Mathemateg - Rhifedd (graddau A* - C); Ennill dau gymhwyster safon Uwch neu gyfwerth. Mae'n rhaid bodloni'r gofyniad hwn drwy gyflawni uchafswm o dri chymhwyster ar wahân.

Mae cyfuniad y graddau o bob prosiect yn penderfynu'r radd derfynol ar gyfer y Fagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch. Mae'r cymhwyster yn cael ei graddio yn yr un modd â phob Safon Uwch arall, sef A i E, ac yn dwyn yr un pwyntiau UCAS.




### Supporting Qualifications

To acquire the Advanced Skills Baccalaureate Wales, learners must achieve: GCSE English Language or GCSE Welsh Language (grades A*-C); GCSE Mathematics (grades A*-C); Two A levels, or equivalent. This requirement must be met through the achievement of no more than three separate qualifications.

The combination of the grades awarded to each project decides the final grade for the Advanced Skills Baccalareate Wales qualification. It is graded in the same way as every other Advanced level, namely A to E, and achieves the same number of UCAS points. In previous years, on average, 85% of our students had a university offer which included the Advanced Skills Baccalaureate Wales qualification.

**Sylwad Disgybl:**

O ganlyniad i astudio'r gwyddorau, y Dystysgrif Her Sgiliau yw'r unig bwnc sy'n rhoi cyfle i mi ysgrifennu'n estynedig. Mae'r sgiliau sy'n cael eu cynnig gan y Project Unigol yn rhai gwerthfawr iawn a rhai defnyddiol imi ar lefel Prifysgol. Yn ogystal, bydd ymchwil fy mhroject o gymorth imi yn ystod cyfweliadau fy nghyrsiau meddygaeth

**Pupil Comment:**

As a result of studying the sciences the Skills Challenge Certificate is the only subject that gives me the opportunity to write at length. The skills that the individual Project offers me are very valuable and will be useful at university level. In addition, my research for my project will be helpful during my interviews for medical college

# BTEC Celfyddydau Perfformio
## BTEC Performing Arts

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs** | Link to the website of the course

https://qualifications.pearson.com/en/qualifications/btec-tech-awards/performing-arts.coursematerials.html

Sganiwch

**Arweinydd Pwnc** | **Subject Leader:** Mrs Catrin A Williams

**Bwrdd Arholi** | **Examination Board:** Pearsons

**Arholiadau** | **Examinations:** 0%

**Gwaith cwrs** | **Coursework:** 100%

**Anghenion Mynediad** | **Entry Requirements:**

Yr awydd i berfformio.

The desire to perform and learn about an exciting industry.



**Gyrfaoedd posib:**

Mae'r cyfleoedd a ddaw wedi astudio Celfyddydau Perfformio yn hynod gyffrous oherwydd y sgiliau sydd yn cael eu datblygu wrth astudio'r pwnc. Yn amlwg, mae astudio Celfyddydau Perfformio yn eich paratoi am yrfa ar lwyfan neu hyd yn oed o fewn y diwydiant gan gynnwys swyddi megis cynhyrchydd, darlledwr ffilm neu fideo.

Yn ogystal mae astudio Celfyddydau Perfformio yn agor drysau gyrfaol megis gweithwr cymunedol y celfyddydau, rheolwr digwyddiadau, swyddog gweithredol masnachol, cynhyrchydd radio neu deledu, asiant talent, rheolwr llwyfan theatre, cynhyrchydd lwyfan.

Mae'r cyfleoedd yn ddi-ddiwedd ac mae'r sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc gan gynnwys cyfathrebu, canolbwyntio a chof, gwaith tîm, y gallu i berfformio o dan bwysau, cynllunio a threfnu, hunan ddisgyblaeth a meddwl critigol yn sgiliau sydd yn cael ei gwerthfawrogi gan bob cyflogwr.

**Possible Careers:**

The opportunities that arise having studied Performing Arts are exciting and are varied because of the skills developed whilst studying the subject. Studying performing arts will ensure that you are able to gain employment in the performing arts. This includes working in the world of theatre and within advertising or within the film industry.

As well as working within the industry, the subject will open numerous doors for opportunities within the community. These include opportunities such as Community arts workers, events coordinator, operational commercial manager, radio or television producer, talent agent, stage manager or director.

The opportunities are endless because of the numerous skills developed whilst studying the subject. These skills include communication, development of concentration and memory, teamwork, different aspects of performing skills, being able to concentrate under pressure, planning and organization, self -discipline, critical and analytical skills. All skills relevant to the world of work and highly valued by employers.

**Beth yw BTEC Celfyddydau Perfformio?**

Yn ystod y cwrs Btec byddwch yn dysgu wrth wneud, ymarfer ac wrth berfformio. Cwrs creadigol ymarferol sydd yn eich arwain ac yn eich annog i gyrraedd eich potensial yn y byd perfformio. Wrth astudio'r cwrs yma byddwch yn cyfuno'r sgiliau dawnsio, action a theatr cerdd.

**What is BTEC Performing Arts?**

During the course you will develop your skills through performing and rehearsing. The course is a creative one which will ensure that you reach your potential in performing arts. Whilst studying this course you will combine dancing, acting and musical theatre skills.

**Beth fyddaf yn dysgu o fewn BTEC Celfyddydau Perffformio?**

Byddwch yn datblygu eich sgiliau perffformio drwy ymarfer yn gyson a perfformio yn gyson. Byddwch yn ogystal yn derbyn cyfleoedd i ddatblygu eich perfformiadau yn drwyadl ac yn cymryd rhan mewn gweithdai er mwyn datblygu'ch sgiliau.

Byddwch yn dod i ddeall beth yw hanfodion perfformiad byw, yn datblygu'r sgiliau perfformio ar gyfer perfformiad byw, yn cyfuno'ch sgiliau a'ch yn gwerthuso'ch perfformiadau.

**What will I learn whilst studying BTEC Performing Arts?**

Whilst studying the course you will develop your performing skills through continuous rehearsals. You will be given ample opportunities to develop performing skills.

You will gain an understanding of the basics of live performance, develop the performance skills for live performance, combine your skills and evaluate your performances.

**Cynnwys y cwrs:**

- Unedau dawns
- Unedau actio
- Unedau canu

**Course Content:**

- Dance
- Acting
- Musical theatre



**Sylwad Disgybl:**

'Dyma gwrs newydd cyffrous fydd yn dechrau mis Medi, 2022! Dydw i methu aros i gael y cyfle hwn yn ein Chweched ni!'

**Pupil Comment:**

'A new and exciting course that will start in September 2022! I look forward to this opportunity in our sixth form!'


# Cerddoriaeth
## Music

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mrs Catrin A Williams
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 40%
**Gwaith cwrs a Perfformio | Coursework and Performance:** 60%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Cerddoriaeth
Gradd 5 o leiaf ar offeryn neu lais

A*- C GCSE Music
Grade 5 or above standard on an instrument or voice




### Beth yw Cerddoriaeth a beth fyddaf yn dysgu?

Mae'r fanyleb hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr astudio cerddoriaeth mewn ffordd integredig, gyda sgiliau perfformio, cyfansoddi a gwerthuso yn atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth o elfennau, cyd-destunau ac iaith gerddorol. Mae'r fanyleb hon hefyd yn galluogi dysgwyr i arbenigo naill ai mewn perfformio neu gyfansoddi am 8% ychwanegol o'r cymhwyster drwy ddarparu dau opsiwn yn Unedau 4 a 5 ar lefel U2.

Fe fydd astudio cerddoriaeth ar y lefel yma yn dyst eich bod yn medru cyfuno nifer o sgiliau megis sgiliau academaidd, creadigol ac ymarferol yn ogystal â chael yr hunan ddisgyblaeth i ymarfer offeryn neu'r llais yn gyson er mwyn perfformio yn hyderus: sgiliau hynod bwysig ar gyfer gyrfa mewn unrhyw faes heriol.

### What is Music and what will I learn whilst studying?

This specification provides learners with the opportunity to study music in an integrated way where the skills of performing, composing and appraising reinforce knowledge and understanding of musical elements, contexts and language. The specification also allows learners to specialise in either performing or composing for an additional 8% of the qualification by providing two options for both Units 4 and 5 at A2.

Studying music at this level will ensure an ability to combine various academic, creative and practical skills whilst developing the self-discipline to regularly rehearse an instrument or voice in order to perform confidently: very important skills for any challenging career.

### Cynnwys y cwrs:

Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gerddoriaeth drwy gyfrwng pedwar maes astudio

- Traddodiad Clasurol y Gorllewin - Cerddoriaeth Gorawl Grefyddol 1730-1800 gyda Requiem Mozart. Yna Requiem Verdi a cherddoriaeth grefyddol y cyfnod Rhamantaidd
- Theatr Gerdd - astudio 4 cyfansoddwr yn benodol - Cole Porter, Richard Rodgers, Claude-Michel Schönberg ac Andrew Lloyd Webber. Yna Theatr Gerdd Americanaidd gyda Stephen Sondheim a Stephen Schwarz.
- Cerddoriaeth yr Ugeinfed Ganrif - Argraffiadaeth gan astudio Reflet dans l'eau gan Debussy

### Course Content:

Learners will develop information and an understanding of music through four areas of study

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/cerddoriaeth-ug-safon-uwch

Sganiwch

- The Western Classical Tradition - Religious Choral Music 1730-1800 with Mozart Requiem. A2 delves further into the Requiem through Verdi and the Romantic era.
- Musical Theatre – studying 4 composers – Cole Porter, Richard Rodgers, Michel Schonberg and Andrew Lloyd Weber. For A2 studies turn to American Musical Theatre with Sondheim and Schwarz.
- Twentieth and Twenty First Century music – Impressionism, Debussy and Ravel

### Gyrfaoedd posib:

Mae'r cwrs yn hanfodol os ydych am astudio'r pwnc yn y brifysgol neu am ddilyn cwrs perfformio mewn conservatoire. Gall hefyd fod yn gam cyntaf at fod yn athro Cerddoriaeth, byd teledu, a chyfoethogi sgiliau i gyfansoddi cerddoriaeth a llawer mwy.

### Possible Careers:

The course is essential for pursuing a music degree at university or to follow a performance course at a conservatoire. It can also provide the first steps to becoming a music teacher, tv and film work, and composition skills to name but a few.



**Sylwad Disgybl:**

Os oes gennych ddiddordeb mewn cerddoriaeth, chwarae gwrando neu gyfansoddi mae'r cwrs yma'n ddelfrydol. Rwy'n hoffi bod yn greadigol wrth gyfansoddi ac mae perfformio yn codi hyder sydd yn fy helpu gyda sgiliau sylfaenol ar gyfer y dyfodol.

**Pupil Comment:**

I'm not entirely sure of what I want to study at University but I know that A level music will give me the confidence to be able to perform confidently on any stage as well as it being an interesting course to study - especially the Musical theatre element.

# Cerdd BTEC
## Music BTEC

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mrs Catrin A Williams
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** Pearson
**Arholiadau | Examinations:** 0%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 100%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

Mynediad i'r cwrs yn ddibynol ar safon eich sgiliau perfformio

Entry to the course will depend on the standard of your performance skills.



### Beth yw Cerdd BTEC

Mae'n gwrs sydd yn eich galluogi i ddatblygu eich sgiliau canu/offerynnol mewn gweithdai amrywiol. Mae'r cwrs yn un ymarferol a chewch gyfle i wella'ch sgiliau gwrando a defnyddio offer sain, gweithio mewn band / grŵp; trefnu a pherfformio gigs.

### What is Music BTEC ?

MUSIC BTEC is a practical course which will enable you to develop both singing and instrumental skills within different workshops. You will also be able to develop your appraising skills as well as your listening skills and gain confidence whilst using

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Cerdd BTEC?

Wrth astudio'r cwrs byddwch yn datblygu sgiliau perfformio unigol ac ensemble yn ogystal â sgiliau cyflwyno wrth werthuso a dadansoddi darnau cyfoes o gerddoriaeth. Byddwch yn datblygu ffurf o drefnu a chynllunio perfformiadau estynedig yn unigol ac fel grŵp. Bydd y cwrs yn eich cynorthwyo i wella eich sgiliau cydweithio ag eraill wrth ddethol repertoire a pherfformio.

### What will I learn whilst studying Music BTEC ?

Within this course you will be encouraged to develop solo and group performing skills as well as presentation skills when analysing pieces of popular music. The course will help you organise and plan extended solo and group performances as well as encourage you to improve your team- work skills when choosing appropriate solo and group repertoire

### Cynnwys y cwrs:

3 uned dysgu sydd.

Dyma enghraifft o'r unedau a gynnigir:

**Datblygu sgiliau Cerddorol :**

1) Perffformio o fewn ensemble

2) Creu deunydd cerddorol

3) Defnyddio arddulliau cerddorol

**Y Diwydiant Cerddorol Byd- Eang**

1) Trefnu gyrfa yn y byd cerddorol

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://qualifications.pearson.com/en/qualifications/btec-nationals/music-2010.html

### Course Content:

You will study 3 units.

Examples of the units offered are as follows :

**Music Skills Development :**

1) Performing as an Ensemble

2) Creating Musical Material

3) Using Musical Styles

**The Global Music Industry**

1) Planning a Career in the Industry

### Gyrfaoedd posib:

Gall y cwrs arwain at astudiaethau pellach neu yrfa mewn perfformio, byd adloniant a diwydiant cerdd, gweithio sain, cynhyrchu a recordio a byd gweinyddol y celfyddydau

### Possible Careers:

This course can lead to further studies or a career in performing, the entertainment & music industry, sound engineering, production work and arts administration.



**Sylwad Disgybl:**

Rwyf yn hoff iawn o waith ymarferol ac felly mae'r cwrs yn addas iawn i fi. Mae'n gyfle i ddatblygu sgiliau perfformio unigol ac o fewn grwp. Yn ogystal â datblygu sgiliau perfformio, rwyf yn datblygu sgiliau sydd yn sicrhau fy mod yn gallu gweithio gydag eraill. Mae'r cwrs yn un llawn hwyl gyda llawer o gyfle i berfformio i gynulleidfa ac o fewn y dosbarth.

**Pupil Comment:**

I thoroughly enjoy this course as it is a practical course. It gives me opportunities to develop my performance skills both individually and as a group. It has also helped me develop other skills such as working with others. I thoroughly enjoy the course as it gives me the opportunity to perform within the class and also to an audience. I am also able to develop various musical skills.

# BTEC Chwaraeon (Lefel 3 - Tystysgrif Estynedig)

## BTEC Sport (Level 3 - Extended Certificate)

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mr Richard Chidley
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** Pearson
**Arholiadau | Examinations:** 67%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 33%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

Wedi astudio TGAU Addysg Gorfforol.

Disgwyl eich bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Have studied GCSE Physical Education

Expected to take part in extracurricular activities.



### Beth yw BTEC Chwaraeon?

Mae'n gwrs cyffrous i unrhyw un sydd â diddordeb mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon er mwyn ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn ystod o weithgareddau corfforol. Ceir cyfle i wella perfformiad mewn dewis o weithgareddau, drwy waith ymarferol yn ogystal ag astudiaeth o'r holl agweddau sy'n arwain at wella perfformiad. Ceir hefyd gyfle i gyfarwyddo gyda'r amryw o weithdrefnau a sgiliau hyfforddi ac arwain yn ogystal â materion iechyd a diogelwch.

### What is BTEC Sport?

It is an exciting course for anyone who has an interest in Physical Education and Sport so that they can develop knowledge, understanding and skills in a range of physical activities. It provides an opportunity to improve performance in chosen activities through both hands on practical work and a study of all aspects that lead to improvement. It also provides the opportunity to learn the various procedures and skills associated with coaching, leadership and health and safety issues.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn BTEC Chwaraeon?

- sut i darparu addysg a hyfforddiant i ddysgwyr chwaraeon a hamdden
- cyflawni cymhwyster galwedigaethol lefel 3 a gydnabyddir yn genedlaethol
- datblygu ystod o dechnegau, sgiliau personol a phriodoleddau sy'n hanfodol ar gyfer perfformiad llwyddiannus mewn bywyd gwaith.
- datblygu fy sgiliau allweddol sydd yn rhan annatod o astudio BTEC Lefel 3 Cenedlaethol Tystysgrif Estynedig Mewn Chwaraeon gyda nifer o gyfleoedd i'w defnyddio a'u hasesu. e.e. cyfathrebu, datrys problemau, gweithio gydag eraill, gwella dysgu a pherfformiad.

### What will I learn whilst studying BTEC Sport?

- to provide education and training for sport, leisure and recreation learners
- to achieve a nationally recognised level 3 vocationally specific qualification
- to develop a range of techniques, personal skills and attributes essential for successful performance in working life.
- develop my Key skills which are an integral part of studying Physical Education, and there are a number of opportunities for their application and assessment e.g. communication, problem solving, working with others, improving one's own performance.

### Cynnwys y cwrs:

**Unedau Gorfodol**

Uned 1: Anatomeg a Ffisioleg

Uned 2: Ymarfer Ffitrwydd a Rhaglenni Iechyd, Chwaraeon a Lles

Uned 3: Datblygiad Proffesiynol mewn Diwydiant Chwaraeon

**Unedau Opsiynol (Rhaid dewis un uned)**

Uned 1: Arweinyddiaeth mewn Chwareon

Uned 2: Rhaglen o Brofion Ffitrwydd

Uned 3: Datblygu Chwaraeon Ymarferol

Uned 4: Seicoleg mewn Chwaraeon

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**

https://qualifications.pearson.com/en/qualifications/btec-nationals/sport-2016.html

### Course Content:

**Mandatory Units**

Unit 1: Anatomy and Physiology

Unit 2: Fitness Testing and Programming for Health, Sport and Well-being

Unit 3: Professional Development in the Sports Industry

**Optional Units (Pupils must choose one unit)**

Unit 1: Sports Leadership

Unit 2: Application of Fitness Testing

Unit 3: Practical Sports Development

Unit 4: Sports Psychology



### Gyrfaoedd posib:

Mae BTEC Lefel 3 Cenedlaethol Tystysgrif Estynedig Mewn Chwaraeon yn cynnig cyfleodd i ddysgwyr gael mynediad i gyflogaeth yn y sector chwaraeon neu hamdden actif, e.e. hyfforddi, dysgu, rheolaeth hamdden a chwaraeon, ac amryw o ardaloedd gwahanol o fywyd chwaraeon a hamdden. neu i ddilyn cwrs addysg uwch galwedigaethol fel y BTEC Cenedlaethol Uwch mewn Chwaraeon.

### Possible Careers:

BTEC Level 3 National Extended Certificate of Sport gives learners the opportunity to enter employment in the sport and active leisure sector or to progress to higher education vocational qualifications such as the Edexcel BTEC Higher Nationals in Sport.



**Sylwad Disgybl:**

'Mae cwrs BTEC Lefel 3 Cenedlaethol Tystysgrif Estynedig Mewn Chwaraeon yn gwrs diddorol iawn. Mae yn cynnwys agweddau ymarferol sydd yn cael eu hatgyfnerthu gyda gwaith cwrs perthnasol.'

**Pupil Comment:**

The BTEC Level 3 National Extended Certificate of Sport is an interesting course. The practical elements to the course are supported by relevant coursework.

# Celf a Dylunio
## Art and Design

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mrs Nerys Griffiths
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 40% (Bl13 | Yr13)
**Gwaith cwrs | Coursework:** 100% (Bl12 | Yr12)
60% (Bl13 | Yr13)

### Anghenion Mynediad | Entry Requirements:

A*- C TGAU Celf

A*- C GCSE Art

### What will I learn whilst studying Art and Design?

- a broad curriculum involving awareness, interest and creative making
- opportunities for bold initiatives in personal development a stimulating mix of highly motivated experimentation,
- application and discovery
- opportunities to learn through a variety of interpretative and expressive skill




### Beth yw Celf a Dylunio?

Mae'r cwrs Celf a Dylunio wedi ei gynllunio er mwyn galluogi dysgwyr i ennill profiad dysgu eang ac hyblyg. Mae'r fanyleb yn adeiladu ar ehangder a dyfnder arfer creadigol disgyblion ac yn cynnig cyfle i weithio fel unigolyn ar draws y meysydd astudio (celfydd gain, tecstilau, cyfathrebu graffeg, dylunio 3D a ffotograffiaeth). Mae yna elfen ysgrifenedig i'r gwaith ac mae disgwyl i ddisgyblion allu egluro a gwerthuso gwaith yn ddeallus.

### What is Art and Design?

The Art and Design course has been designed in order to allow pupils to gain an extensive and flexible learning experience. The specification builds upon the breadth a depth of pupil creativity and gives the opportunity to work as an individual across the study areas (fine, art, textiles, graphic communication, 3D design and photography). There is a written element to the work and pupils will be expected to explain and evaluate their work in an intellectual manner.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Celf a Dylunio?

- cwricwlwm eang yn ymwneud gydag ymwybyddiaeth, diddordeb a gwneud creadigol
- cyfleoedd ar gyfer camau cyntaf hyderus mewn datblygiad personol
- cymysgedd ysgogol o arbrofi, cymhwysiad a darganfyddiadau cyfleoedd i ddysgu drwy amrywiaeth o sgiliau deongliadol a mynegiannol

### Cynnwys y cwrs:

**Uned 1 – Ymholiad Creadigol Personol (Blwyddyn 12)**

Prosiect/portffolio ymchwiliol, estynedig a chanlyniad/au yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd yn bersonol ac yn ystyrlon i'r dysgwr. Rhaid cyfuno gwaith beirniadol, ymarferol a damcaniaethol.

**Uned 2 – Ymchwiliad Personol (yn cynnwys dwy ran) (Blwyddyn 13)**

Prif brosiect/portffolio ymchwiliol beirniadol, ymarferol, damcaniaethol a chanlyniad/au yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd ag arwyddocâd personol.

Elfen ysgrifennu estynedig, gallai gynnwys delweddau a thestunau, ac mae'n rhaid iddo ymwneud yn amlwg â'r gwaith ymarferol.

**Uned 3 – Aseiniad wedi'i osod yn allanol (Blwyddyn 13)**

Cyfnod paratoi, ac yna defnyddir y gwaith hwn wrth wireddu'r syniadau yn yr astudiaeth ddwys a manwl 15 awr (amodau dan oruchwyliaeth).

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/art-and-design-as-a-level

### Course content:

**Unit 1 – Personal Creative Enquiry (Year 12)**

Extended personal research project/portfolio with outcome/s based upon themes, and subject material, which is personal and meaningful to the learner. A combination of critical, practical and theoretical work is essential.



**Unit 2 – Personal Investigation (to include two parts) (Year 13)**

Critical research portfolio/project, practical and theoretical, with outcome/s based upon themes, and subject material, which is personal and meaningful to the learner.

Extended written element, which can include images and texts, that must pertain in an obvious manner to the practical work.

**Unit 3 – Externally set task (Year 13)**

Preparation period, and then this work is used in order to verify ideas in a sustained and detailed piece of work (15 hours under supervised conditions).

### Gyrfaoedd posib:

Paratoad ardderchog ar gyfer bywyd, gan gynnwys gwaith ac addysg uwch a phellach.

Dylunio mewnol, pensaerniaeth, dylunio theatr, ffotograffiaeth, animeddio, celfyddid gain, dylunio gemwaith, dylunio gwisgoedd, dylunio graffeg, dylunio cynnyrch, darlunio, cynllunio gwefan ac apiau ...

### Possible careers:

An excellent preparation for life including work, further and higher education.

Interior design, architecture, theatre design, photography, animation, fine art, jewellery design, costume design, graphic design, product design, illustration, website and app design ...

### Sylwadau Disgyblion:

"Mae Celf Safon Uwch yn sicrhau fy mod yn datblygu fy sgiliau creadigol drwy arbrofi gyda nifer o dechnegau gwahanol. Mae'r gwaith yn gallu bod yn heriol ac yn cynnig cyfle i fi gyrraedd fy mhotensial."

"Yn bersonol, rwy'n teimlo fod Celf Safon Uwch yn cynnig cyfle i fod yn fwy creadigol na rhai pynciau eraill. Mae gen i ryddid i arbrofi gyda thechnegau a chyfryngau gwahanol ac rwy'n cael cyfle i werthfawrogi arddulliau a gwaith gan arlunwyr gwahanol."

"Rwy wedi dewis astudio Celf Safon Uwch wedi i fi fwynhau cwblhau'r cwrs TGAU ym Mlwyddyn 10 ac 11. Mae'r gwersi yn cynnig cyfle i arbrofi gyda thechnegau ac adnoddau ac hefyd i fod yn greadigol."

### Pupils' Comments:

"Art Advanced Level ensures that I am able to develop my creative skills by experimenting with a numerous and varied techniques. The work can be challenging and offers me the opportunity to reach my potential."

"Personally, I feel that Art Advanced level offers the opportunity to be more creative than some of the other subjects. I have freedom to explore with different techniques and media and the opportunity to appreciate various style of work by different artists."

"I have chosen to study Art Advanced Level as I enjoyed completing the GCSE course in Year 10 and 11. The lessons offer the opportunity to experiment with techniques and media and also to be creative."

# Cemeg
## Chemistry

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Lowri Elena
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 100%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 0%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A* - B TGAU Cemeg Haen Uwch

A* - B GCSE Chemistry Higher Tier



### Beth yw Cemeg?

Cemeg yw'r astudiaeth o fater, ei briodweddau, sut a pham y mae sylweddau'n cyfuno neu ffurfio sylweddau eraill. Mae llawer o bobl yn meddwl am gemegwyr fel gwyddonwyr â chôt wen yn cymysgu hylifau rhyfedd mewn labordy, ond y gwir yw ein bod i gyd yn gemegwyr. Mae deall cysyniadau sylfaenol cemeg yn bwysig i bron pob proffesiwn. Mae cemeg yn rhan o bopeth yn ein bywydau.

Mae pob deunydd sy'n bodoli yn fater — hyd yn oed ein cyrff ein hunain. Mae cemeg yn ymwneud â phopeth a wnawn, o dyfu a choginio bwyd i lanhau ein cartrefi a'n cyrff i lansio gwennol ofod. Cemeg yw un o'r gwyddorau ffisegol sy'n ein helpu i ddisgrifio ac egluro ein byd.

### What is Chemistry?

Chemistry is the study of matter, its properties, how and why substances combine or form other substances. Many people think of chemists as scientists with a white coat mixing strange fluids in a laboratory, but the truth is that we are all chemists. Understanding the basic concepts of chemistry is important to almost all professions. Chemistry is part of everything in our lives.

All existing material is a matter — even our own bodies. Chemistry is about everything that we do, from growing and cooking food to cleaning our homes and our bodies and launching a space shuttle. Chemistry is one of the physical sciences that helps us describe and explain our world.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Cemeg?

Drwy astudio'r cwrs Cemeg byddwch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol o gysyniadau cemegol a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn eu defnyddio mewn sefyllfaoedd newydd a newidiol. Byddwch yn gwneud cysylltiadau rhwng theori ac arbrofion gan werthfawrogi cyfraniadau Cemeg i'r gymdeithas a edrych ar ffyrdd cyfrifol o ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth wyddonol. Rhan bwysig o'r cwrs yw dod â gwybodaeth at ei gilydd am ffyrdd y mae gwahanol feysydd Cemeg yn cysylltu â'i gilydd.

Bydd y gwersi yn cynnwys cyfnodau dysgu a thrafodaeth dosbarth a gwaith ymarferol, cyflwyniadau gan ddisgyblion a gwaith darllen ac astudio unigol. Cewch eich hannog i ddefnyddio amrediad eang o adnoddau gan gynnwys gwerslyfrau'r ysgol, cylchgronau a meddalwedd perthnasol yn ogystal â'r cyfoeth o wybodaeth sydd i'w gael ar y rhyngrwyd.

### What will I learn whilst studying Chemistry?

By studying the Chemistry course you will develop an essential knowledge and understanding of chemical concepts and the skills needed for their use in new and changing situations. You will make links between theory and experimentation, appreciating the contributions of chemistry to society and looking at responsible ways of using scientific knowledge and evidence.

Lessons will include class presentations, practical tasks, discussion periods, pupil presentations and individual reading and study. You are encouraged to use a wide range of resources including school textbooks, magazines and relevant software as well as the wealth of information available on the Internet.

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/chemistry-as-a-level

### Cynnwys y cwrs:

**Blwyddyn 12 (Uwch Gyfrannol)**

Uned 1 - Iaith Cemeg, Adeiledd Mater ac Adweithiau Syml

Uned 2 - Egni, Cyfradd a Chemeg Cyfansoddion Carbon

**Blwyddyn 13 (Safon Uwch)**

Y ddwy uned uchod yn ogystal â:

Uned 3 - Cemeg Ffisegol ac Anorganig

Uned 4 - Cemeg Organig a Dadansoddi

Uned 5 - Arholiad ymarferol

### Course Content:

**Year 12 (AS Level)**

Unit 1 – The Language of Chemistry, Structure of Matter and simple reactions

Unit 2 – Energy, Rate and Chemistry of Carbon Compounds

**Year 13 (A Level)**

Both of the above units and the following:

Unit 3 – Physical and Inorganic Chemistry

Unit 4 – Organic Chemistry and Analysis

Unit 5 – Practical Examination

### Gyrfaoedd posib:

Mae llwyddiant Safon Uwch yn hanfodol bwysig os ydych am barhau ag astudiaeth bellach mewn Cemeg neu faes fel meddygaeth, fferylliaeth neu un o'r gwyddorau biolegol. Bydd Safon UG/U yn fanteisiol iawn i'r rhai ohonoch sydd â diddordeb mewn unrhyw faes gwyddonol e.e. peirianneg, yr amgylchedd neu daeareg. Mae'r amrediad o sgiliau byddwch yn datblygu drwy ddilyn y cwrs yma yn rhai fedrwch drosglwyddo i bob math o swyddi ac mae canran uchel o bobl â chymwysterau mewn Cemeg yn symud ymlaen i weithio ym meysydd bancio, cyfrifyddiaeth, rheolaeth busnes a'r sector technoleg gwybodaeth.

### Possible Careers:

A Level success is vitally important if you are to continue with a further study in Chemistry or an area such as Medicine, Pharmacy or one of the Biological Sciences. AS/A standard will be of great benefit to those of you with an interest in any scientific field e.g. Engineering, Environment or Geology. The range of skills you develop by following this course can be transferable to all kinds of jobs and a high percentage of people with qualifications in Chemistry move on to work in the fields of banking, accountancy, business management and the information technology sector.



**Sylwad Disgybl:**

"Mae Cemeg yn cyfuno yr academaidd a'r ymarferol ac yn agor drysau i sawl maes, nid yn unig Gwyddoniaeth Bur, ond hefyd i feysydd fel meddygaeth a deintyddiaeth. Mae hefyd yn ddisgyblaeth uchel ei barch a heriol."

**Pupil Comment:**

"Chemistry combines the academic and practical and opens doors to many areas, not only pure science, but also to areas such as medicine and dentistry. It is also a highly respected and challenging discipline. "

# Cyfrifiadureg
## Computer Science

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mr Dilwyn Owen
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 80%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 20%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Cyfrifiadureg
A*- C TGAU Mathemateg/Rhifedd

A*- C GCSE Computer Science
A*- C GCSE Mathematics/Numeracy




### Beth yw Cyfrifiadureg?

Defnyddir cyfrifiaduron yn helaeth ym mhob agwedd ar fusnes, diwydiant, llywodraeth, addysg, hamdden ac yn y cartref. Yn yr oes gynyddol dechnolegol hon, mae astudiaeth o gyfrifiadureg, ac yn arbennig sut mae cyfrifiaduron yn cael eu defnyddio i ddatrys amrywiaeth o broblemau, yn werthfawr i'r dysgwyr ond yn hanfodol hefyd i les y wlad ei hun yn y dyfodol.

Mae cyfrifiadureg yn integreiddio'n dda â phynciau ar draws y cwricwlwm. Mae'n galw am ddisgyblaeth resymegol a chreadigedd ddychmygus wrth ddethol a dylunio algorithmau ac ysgrifennu, profi a dadfygio rhaglenni; mae'n dibynnu ar ddeall rheolau iaith ar lefel sylfaenol; mae'n annog ymwybyddiaeth o'r ffordd mae systemau cyfrifiadurol yn cael eu rheoli a'u trefnu; mae'n estyn gorwelion y dysgwyr tu hwnt i amgylchedd yr ysgol neu'r coleg wrth iddyn nhw werthfawrogi effeithiau cyfrifiadureg ar y gymdeithas ac ar unigolion. Am y rhesymau hyn, mae cyfrifiadureg yr un mor berthnasol i ddysgwr yn astudio pynciau'r celfyddydau ag ydyw i ddysgwr yn astudio pynciau'r gwyddorau.

### What is Computer Science?

Computers are widely used in all aspects of business, industry, government, education, leisure and the home. In this increasingly technological age, a study of computer science, and particularly how computers are used in the solution of a variety of problems, is not only valuable to the learners but also essential to the future well-being of the country.

Computer science integrates well with subjects across the curriculum. It demands both logical discipline and imaginative creativity in the selection and design of algorithms and the writing, testing and debugging of programmes; it relies on an understanding of the rules of language at a fundamental level; it encourages an awareness of the management and organisation of computer systems; it extends the learners' horizons beyond the school or college environment in the appreciation of the effects of computer science on society and individuals. For these reasons, computer science is as relevant to a learner studying arts subjects as it is to one studying science subjects.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Cyfrifiadureg?

Mae cymhwyster UG a Safon Uwch Cyfrifiadureg CBAC yn annog dysgwyr i ddatblygu'r canlynol:

- dealltwriaeth o, a'r gallu i gymhwyso, egwyddorion a chysyniadau sylfaenol cyfrifiadureg, gan gynnwys haniaethu, dadelfennu, rhesymeg, algorithmau a chynrychioli data
- y gallu i ddadansoddi problemau yn nhermau cyfrifiannu trwy brofiad ymarferol o ddatrys problemau o'r fath, gan gynnwys ysgrifennu rhaglenni i wneud hynny
- y gallu i feddwl yn greadigol, arloesol, dadansoddol, rhesymegol a beirniadol
- y gallu i weld perthnasoedd rhwng agweddau gwahanol ar gyfrifiadureg
- sgiliau mathemategol
- y gallu i fynegi cyfleoedd unigol (moesol), cymdeithasol (moesegol), cyfreithiol a diwylliannol a risgiau technoleg ddigidol.

### What will I learn whilst studying Computer Science?

Paragraff neu ddau yn trafod yr hyn fydd yn cael ei addysgu o fewn y cwrs.

The WJEC AS and A Level in Computer Science encourages learners to develop:

- an understanding of, and the ability to apply, the fundamental principles and concepts of computer science, including abstraction, decomposition, logic, algorithms and data representation
- the ability to analyse problems in computational terms through practical experience of solving such problems, including writing programs to do so
- the capacity for thinking creatively, innovatively, analytically, logically and critically
- the capacity to see relationships between different aspects of computerscience
- mathematical skills
- the ability to articulate the individual (moral), social (ethical), legal and cultural opportunities and risks of digital technology.

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/computer-science-gcse



### Cynnwys y cwrs:

Uned 1: Hanfodion Cyfrifiadureg
Uned 2: Rhaglennu Ymarferol i Ddatrys Problemau
Uned 3: Rhaglennu a Datblygu Systemau
Uned 4: Saernïaeth Gyfrifiadurol, Data, Cyfathrebu a Rhaglenni
Uned 5: Rhaglennu Datrysiad i Broblem (Cywaith)

### Course Content:

Unit 1: Fundamentals of Computer Science
Unit 2: Practical Programming to Solve Problems
Unit 3: Programming and System Development
Unit 4: Computer Architecture, Data, Communication and Applications
Unit 5: Programmed Solution to a Problem (Project)

### Gyrfaoedd posib:

Os ydych chi wedi astudio Cyfrifiadureg, byddwch chi wedi ennill llawer o sgiliau technegol ac annhechnegol sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr, o arweinyddiaeth i raglennu. Mae cwmpas cynyddol Cyfrifiadureg yn golygu bod gennych ddigon o ddewis mewn amrywiaeth eang o feysydd arbenigol iawn. Gyda thechnolegau cyfrifiadurol yn chwarae rhan gynyddol ym mhob agwedd ar fywyd modern, mae'n debygol y bydd galw mawr am eich Cyfrifiadureg ar draws llawer o wahanol ddiwydiannau. Mae'r rhain yn cynnwys: sefydliadau ariannol, cwmnïau ymgynghori, cwmnïau meddalwedd, cwmnïau cyfathrebu, warysau data, cwmnïau rhyngwladol (cysylltiedig â TG, gwasanaethau ariannol ac eraill), asiantaethau'r llywodraeth, prifysgolion ac ysbytai.

### Possible Careers

If you've studied Computer Science, you will have gained many technical and non-technical skills which are highly valued by employers, from leadership to programming. The increasing scope of computer science means you have plenty of choice in a wide variety of highly specialised areas. With computer technologies playing an ever growing role in all aspects of modern life, you're likely to find your computer science skills in high demand across many different industries. These include: financial organisations, management consultancy firms, software houses, communications companies, data warehouses, multinational companies (IT-related, financial services and others), governmental agencies, universities and hospitals.

**Sylwad Disgybl:**

"Un o'r pethau mwyaf defnyddiol a gefais o Gyfrifiadureg oedd sgiliau sydd gyda gwerth yn y byd go iawn, fel rheoli prosiect, prosiectau grŵp, gwaith cwrs, a chyflwyniadau. Maen nhw i gyd yn bethau hanfodol i gyflogwr nad ydyn nhw o reidrwydd yn bethau y byddech chi'n eu cysylltu â Chyfrifiadureg."

**Pupil Comment:**

"One of the most useful things I gained from Computer Science were those skills with a real-world application, like project management, group projects, coursework, and presentations. They're all vital things for an employer which aren't necessarily things that you would associate with Computer Science."

# Cymraeg
## Welsh

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mrs Heledd Lewis
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 55%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 45%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth Haen Uwch (Rhaid cael y ddau)

A*- C GCSE Welsh Language and Literature Higher Tier (Must have both)



### Beth yw Cymraeg?

Mae'r pwnc yn cynnig cyfle i chi ddysgu mwy am ddiwylliant, treftadaeth a llenyddiaeth Cymru. Rhydd y cwrs hwn lawer o gyfleoedd i chi drafod nofelau cyfoes, gwylio ffilmiau cyfredol ac ysgrifennu'n greadigol. Cewch hefyd gyfle i astudio hanes yr iaith yn ddyfnach drwy ddadansoddi chwedlau a cherddi mewn hen Gymraeg.

### What is Welsh?

This subject allows you to learn more about the culture, heritage and literature of Wales. The course offers numerous opportunities for you to discuss novels and short stories, to watch current films and write creatively. You will also study the history of the language in more depth through analysing legends and poetry written in early Welsh.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Cymraeg?

Wrth astudio'r Gymraeg byddwch yn datblygu eich gwybodaeth a'ch ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymreig a thraddodiadau ein gwlad. Bydd llawer o waith trafod a dadansoddi yn y gwersi yn ogystal â thasgau ysgrifenedig. Dibynnir yn fawr ar eich gallu i ymchwilio yn annibynnol a'ch diddordeb i ddarllen o amgylch y pwnc i gyfoethogi'ch gwybodaeth.

Mae'r arholiadau llafar yn gyfle i chi ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth lawn o ffilmiau, dramâu a nofelau Cymraeg. Cewch barhau i ddangos eich creadigrwydd a'ch sgiliau ysgrifennu ffeithiol trwy'r gwaith cwrs. Byddwch yn dysgu pa ddefnydd a wneir o'r Gymraeg yn y byd gwaith, y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Byddwch yn darllen a dadansoddi testunau Cymraeg sy'n amrywio o waith beirdd y 6ed ganrif hyd at feirdd heddiw, o ryddiaith y canol oesoedd i nofelau cyfoes.

Yn ogystal, trefnir ymweliadau gan feirdd Cymru a sawl cwrs ar y cyd ag ysgolion eraill ble ceir cyfle i gyfathrebu â myfyrwyr eraill sy'n astudio'r cwrs. Bydd ymweliadau i'r theatr a'r sinema. Trefnir teithiau ar eich cyfer, i ehangu eich profiadau, i lefydd o bwys neu deithiau adolygu.

### What will I learn whilst studying Welsh?

By studying Welsh you will develop your knowledge and awareness of Welsh traditions and culture. There will be many group and class discussions in the lessons as well as written tasks. It is necessary to read extensively to broaden your knowledge of the subject.

You will continue to communicate confidently and fluently through oral discussions on film and drama appreciation. Further practice in written work, in various contexts and situations will also be continued. You will study and analyse texts that vary from 6th century bards to contemporary poets, from the old Welsh prose to modern novels. This course reinforces and expands your awareness of the Welsh language's place in the European literary tradition.

There will also be visits to the theatre and cinema. Revision courses and visits to places of interest will also be arranged in order to widen your experiences. You will meet poets and there will be subject related meetings with various schools, giving you a chance to communicate with other students studying the subject.

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-language-a-as-level

### Cynnwys y cwrs:

Uned 1 – Trafod ffilm a drama
Uned 2 – Gwaith Cwrs
Uned 3 – Defnyddio Iaith a Barddoniaeth
Uned 4 – Trafod nofel
Uned 5 – Chwedlau, Hengerdd a'r Cywyddau
Uned 6 – Defnyddio Iaith a Gwerthfawrogi Llenyddiaeth

### Course Content:

Unit 1 – Discuss film and drama
Unit 2 - Coursework
Unit 3 – Use of the language and Poetry
Unit 4 – Discuss a novel
Unit 5 – The Legends, Early Welsh Poetry and Medieval Welsh Poetry
Unit 6 - Use of the language and appreciation of Poetry and Prose

### Gyrfaoedd posib:

O astudio'r Gymraeg fel pwnc mae posibiliadau gyrfaol di-ben-draw. Pe dymunech ddilyn gyrfa yn y gyfraith, mewn llywodraeth leol neu gendlaethol, newyddiaduraeth neu'r cyfryngau, cysylltiadau cyhoeddus neu addysg dyma'r pwnc i chi. Mae'n cynnig llu o gyfleoedd i unrhyw un sydd am swydd ble mae angen sgiliau cyfathrebu huawdl a graenus.

### Possible Careers:

Studying Welsh as a subject gives numerous career prospects – the law, local or national government, journalism or the media, public relations or education. The course gives a good opportunity to anyone who wishes to follow a career where good communication skills are imperative.



### Sylwad Disgybl:

"Yr hyn sy'n wych am astudio Cymraeg yw'r amrywiaeth – un wers ti'n trafod beirdd y chweched ganrif a'r wers nesaf ti'n trafod ffilm! Mae cymaint o gyfleoedd gwahanol wrth astudio, a chyfle i ysgrifennu'n greadigol am bynciau sy'n bwysig i ni heddiw. Trwy ddarllen y llenyddiaeth mae cyfle yma i ddysgu mwy am hanes ein gwlad ein hunain a hynny mewn ffordd newydd a diddorol. Ond, un o'r pethau pwysicaf i fi, yw pa mor gartrefol yw'r teimlad yn y gwersi. Mae'r athrawon yn dy 'nabod di ac yn dy groesawu di i bob gwers."

### Pupil Comment:

"The great thing about studying Welsh is the variety – in one lesson you're discussing poets from the 6th century and the next you're appreciating a film! There are many opportunities to write creatively and factually about current affairs. By reading our literature we can appreciate our history in a new and interesting way. But, one of the most important things is that there is a relaxed feel in the lessons. Teachers know us, and welcome us to every lesson."

# Daearyddiaeth
## Geography

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mrs Heulwen Pryce

**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC

**Arholiadau | Examinations:** 80%

**Gwaith cwrs | Coursework:** 20%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Daearyddiaeth

A*- C GCSE Geography



### Beth yw Daearyddiaeth?

Daearyddwyr sydd yn dal yr allwedd i'r dyfodol!
Mae Daearyddiaeth yn bwnc symbylol, heriol ac ysgogol sy'n berthnasol i fywyd bob dydd. Mae'n bwnc sydd yn rhoi'r dealltwriaeth o brosesau cymdeithasol a chorfforol yng nghyd-destun lle - gan gydnabod y gwahaniaethau mawr mewn diwylliannau, systemau gwleidyddol, economïau, tirweddau ac amgylcheddau ledled y byd, ac yn archwilio'r cysylltiadau rhyngddynt.

### What is Geography?

Geographers hold the key to our future. Geography is a stimulating, challenging and thought-provoking subject relevant to everyday life. It is a subject that puts the understanding of social and physical processes within the context of place - recognising the great differences in cultures, political systems, economies, landscapes and environments across the world, and exploring the links between them.

"More than ever we need the geographer's foresight to help us learn about our planet ....how we use it and abuse it. Geography is the subject which holds the key to our future." Michael Palin



### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Daearyddiaeth?

Mae amrywiaeth o sgiliau a themâu yn cael eu dysgu o fewn y pwnc sy'n hybu eich datblygiad i fod yn ddadansoddol ac yn ymwybodol o'r amgylchedd ffisegol a dynol yr ydych yn byw ynddo. Mae'r cwrs yn dyfnhau eich dealltwriaeth ar destunau o'r TGAU yn ogystal â chyflwyniad hollol newydd i destunau diddorol a chyfredol.

Byddwch yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gwaith grŵp ac unigol. Byddwch yn datblygu eich sgiliau cyfathrebu ac mi fydd Technoleg Gwybodaeth yn cymryd rôl flaenllaw wrth ymchwilio, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth. Byddwch yn cael y cyfle i fynychu darlithoedd prifysgol, cyrsiau gwaith maes a dyddiau gwaith maes unigol yn ogystal.

### What will I learn whilst studying Geography?

You will study a wide variety of skills and themes within the subject, which will aid your development as a geographer to become an analytical thinker and to be aware of the human and physical environment in which we live. The course will deepen your understanding of some of the themes taught at GCSE as well as the introduction of completely new and interesting themes.

You will participate in a variety of organised activities, tutorials, group and individual work. As a geographer, you will develop your communication skills and ICT will play an important role in researching, analysing and presenting data. You will participate in a variety of fieldwork activities including a fieldwork course as well as fieldwork day visits.

### Cynnwys y cwrs:

**Unedau Dysgu UG**

Uned 1 Tirweddau sy'n Newid

• Tirweddau Arfordirol

• Peryglon Tectonig

Uned 2 Lleoedd sy'n Newid

• Lleoedd sy'n Newid

• Ymchwiliad Gwaith Maes mewn Daearyddiaeth Ffisegol a Dynol

**Unedau Dysgu Safon Uwch**

Uned 3 Systemau Byd-eang a Rheolaeth Fyd-eang

• Systemau Byd-eang: Cylchredau Dŵr a Charbon.

• Rheolaeth Fyd-eang: Newid a Heriau Prosesau a phatrymau mudo byd-eang a dulliau bydeang o reoli cefnforoedd y Ddaear.

• Sialensiau'r 21ain Ganrif

Uned 4 Themâu Cyfoes mewn Daearyddiaeth

• Peryglon Tectonig

• Twf a Her Economaidd: Tsieina

• Y Tywydd a'r Hinsawdd

Uned 5 Ymchwiliad annibynnol.

Un ymchwiliad annibynnol ysgrifenedig, wedi'i seilio ar gasglu data cynradd a gwybodaeth eilaidd

### Course Content:

**AS Course Content**

Unit 1 Changing Landscapes

• Coastal Landscapes

• Tectonic Hazards

Unit 2 Changing Places

• Changing Places

• Fieldwork Investigation in Physical and Human Geography

**A Level Course Content**

Unit 3 Global Systems and Global Governance

• Global Systems: Water and Carbon Cycles

• Global Governance: Change and Challenges Processes and patterns of global migration and global governance of the Earth's oceans

• 21st Century Challenges

Unit 4 Contemporary Themes in Geography

•Tectonic Hazards

• Economic Growth and Challenge: China

• Weather and Climate

Unit 5 Independent Investigation (Coursework)

One written independent investigation, based on the collection of both primary data and secondary information



**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**

Sganiwch

https://www.wjec.co.uk/qualifications/geography-as-a-level

### Gyrfaoedd posib:

Mae Daearyddiaeth fel cymhwyster U.G. a S.U. yn un sydd yn cael ei ystyried yn arbennig o ddefnyddiol gan gyflogwyr a phrifysgolion. Mae'r grŵp Russell o brifysgolion yn ei ystyried fel pwnc 'hyrwyddiad' (facilitating subject), sef pwnc sy'n medru cyfarparu myfyrwyr â'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer nifer fawr o gyrsiau cystadleuol. Yn ogystal, mae'n gallu arwain at nifer o yrfaoedd diddorol megis cynllunio, addysg, twristiaeth, teithio, dadansoddi data, rheolaeth a meteoroleg.

### Possible Careers:

Geography as an AS or A level qualification is highly regarded by employers and Higher Education Institutions. The Russell group of Universities regards it as a 'facilitating' subject i.e. a subject that is particularly effective in equipping students with the skills they need for a large number of competitive university courses and one which increases a student's chances of getting on to those courses. Studying Geography can also lead to many rewarding employment opportunities e.g. cartography, planning, social anthropology, education, tourism, meteorology, travel, management and data analysis to name but a few.

**Sylwad Disgybl:**

Mae Daearyddiaeth yn bwnc cyffrous sy'n cwmpasu nifer fawr o feysydd gwahanol. Fi wir yn hoffi bod popeth rydym yn astudio yn gallu cael ei weld yn y byd. Er enghraifft, roeddwn yn gweld dysgu am lifogydd wir yn ddiddorol oherwydd mae fy ardal leol yn cael ei llifogi drwy'r amser! Mae'r elfen 'fyw' yma o Daear yn gwneud y gwersi'n ddiddorol a'r adolygu llawer yn haws.

**Pupil Comment:**

Geography is an exciting subject that encompasses many different fields. I really like that everything we study on the course can be applied to the world around us. For example, I have been able to learn about floods which was very interesting to me because my local area floods all the time! This 'real-life' element of Geography makes the lessons interesting and revision easier when it comes down to it.

# Dysgu yn yr Awyr Agored
## Learning in the Outdoors

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mr R Chidley
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** Agored Cymru
**Arholiadau | Examinations:** Dim | None
**Gwaith cwrs | Coursework:** 100%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

Wedi astudio Lefel 2 Dysgu yn yr Awyr Agored

Have studied Level 2 Learning in the Outdoors



### Beth yw Dysgu yn yr Awyr Agored?

Wrth i Gymru ddatblygu ei darpariaeth Awyr Agored i'r farchnad eang mae'r galw am hyfforddwyr cymwysedig yn tyfu. Yn fwy na hyn mae'r galw am hyfforddwyr â'r gallu i siarad Cymraeg yn fwy byth. Ystyrir y cwrs hwn fel un sy'n rhoi profiadau eang i ddisgyblion sydd â'r gallu i gynnig eu hunain fel swyddogion a fydd yn gallu hybu Cymru, ei hadnoddau naturiol ac addysgu ei hymwelwyr am sut i wneud hyn yn gynaliadwy. Edrychwn ar weithgareddau awyr agored a rhoi profiadau eang ar sut i gymryd rhan, arwain a marchnata. Bydd y cwrs yn datblygu sgiliau unigolion trwy'r gweithgareddau ac yn rhoi pwyslais parhaol ar reoli risgiau.

### What is Learning in the Outdoors?

As Wales develops its Outdoor provision to the wider market the demand for qualified instructors is growing. More than this, the demand for trainers with the ability to speak Welsh is even greater. This course is seen as giving wide experiences to pupils who have the ability to offer themselves as leaders who will be able to promote Wales, its natural resources and educate its visitors about how to do this sustainably. We look at outdoor activities and give broad experiences on how to participate, lead and market. The course will develop individuals' skills through the activities and place an emphasis on risk management.



### Beth fyddaf yn ei ddysgu o fewn Dysgu yn yr awyr Agored?

Bydd y cwrs yn datblygu'r sgiliau a enillwyd ar y Cwrs Lefel 2. Mae tair uned gorfodol fydd yn canolbwyntio ar sgiliau, risg a chynaliadwyedd. Bydd cyfuniad o 8-10 uned ddewisiol a all rhoi amrediad o brofiadau dysgu megis profiad gwaith neu gyrfaoedd yn y sector anturus, newid hinsawdd, gweithgareddau ar y tir neu ar ddŵr a chymorth cyntaf.

### What will I learn in Learning in the Outdoors?

The course will develop the skills gained on the Level 2 Course. There are three compulsory units which will focus on skills, risk and sustainability. There will be a combination of 8-10 optional units which can provide a range of learning experiences such as work experience or careers in the adventure sector, climate change, activities on land or on water and first aid.

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/geography-as-a-level

Sganiwch

### Cynnwys y cwrs:

**Unedau Gorfodol**

- Rheoli risg wrth ddysgu yn yr awyr agored
- Datblygu sgiliau trwy ddysgu yn yr awyr agored
- Cyfranogiad cynaliadwy mewn gweithgareddau awyr agored

**Unedau Posib**

- Hyfforddi Chwaraeon Anturus
- Cymorth Cyntaf yn yr Awyr Agored
- Profiad Gwaith
- Gweithgareddau ar y tir/dŵr ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

### Course Content:

**Compulsory Units**

- Managing risk when learning in the outdoors
- Develop skills through learning in the outdoors
- Sustainable participation in outdoor activities

**Possible Units**

- Adventure Sports Coaching
- Outdoor First Aid
- Work experience
- Land/water activities for learning in the outdoors.

### Gyrfaoedd posib:

Hyfforddwr Awyr Agored, Rheolwr Canolfan Antur, Lluoedd Arfog, Cyfryngau, Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyngor Cefn Gwlad, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Urdd.

### Possible Careers:

Outdoor Instructor, Adventure Center Manager, Armed Forces, Media, Public Services, Countryside Council, Natural Resources Wales and the Urdd.







# BTEC Lefel 3 Perfformio (Dawns)

## BTEC Level 3 Performance (Dance)

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Rochelle Davies
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** Pearson
**Arholiadau | Examinations:** 0%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 100%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

Awydd i berfformio a diddordeb yn y pwnc.

A desire to perform and an interest in the subject.



### Beth yw Dawns?

Mae'r cwrs Dawns wedi'i anelu at fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn perfformio a bydd yn cynnig cyfleoedd i weithio ar ddatblygu sgiliau creadigol wrth greu a dysgu dawns o'r gorffennol.

Mae'r cwrs yn caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn perfformio. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu a pharatoi ar gyfer gradd neu yrfa yn y diwydiant hwn. Trwy gydol y cwrs, bydd myfyrwyr yn cael cyfle i ddysgu a datblygu technegau newydd a chymryd rhan mewn cynhyrchiadau a gweithdai.

### What is Dance?

The Dance course is aimed at students interested in performing and will offer opportunities to work on developing creative skills in creating and learning famous dance works from the past.

The course allows students to develop their knowledge and skills in performance. It will also give students the opportunity to develop and prepare for a degree or career in this industry. Throughout the course, students will have the opportunity to learn and develop new techniques and participate in productions and workshops.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Dawns?

Wrth ddewis astudio'r cwrs Dawns byddwch yn datblygu eich sgiliau:

- perfformio.
- meddwl yn greadigol.
- gwerthuso.
- ymchwilio.
- dealltwriaeth o'r byd Dawns

Cewch gyfle i wella eich sgiliau cydweithio ag eraill wrth ddysgu a chreu dawnsfeydd ar gyfer perfformiadau. Mae pwyslais ar ddatblygu dawnswyr creadigol, deallus ac annibynnol.

### What will I learn whilst studying Dance?

By choosing to study the Dance course you will develop your skills in:

- performing.
- creative thinking.
- evaluating.
- researching.
- And your understanding of the Dance world

You will have the opportunity to improve your skills in working with others while learning and creating dances for performances. Emphasis is on developing creative, intelligent and independent dancers.

### Cynnwys y cwrs:

Bydd y cwrs yn datblygu sgiliau perfformio a choreograffig mewn amrywiaeth o arddulliau dawns. Byddwch yn dilyn rhaglen ymarferol a damcaniaethol lle byddwch yn astudio gwaith coreograffwyr proffesiynol, yn mynychu'r theatr i wylio perfformiadau byw a gweithio gydag amrywiaeth o goreograffwyr proffesiynol.

Byddwch hefyd yn dyfnhau dealltwriaeth dechnegol ac anatomegol o sut mae'r corff yn gweithredu wrth berfformio, sut i edrych ar ôl eich hun a chynnal deiet cytbwys ac iach.

### Course Content:

The course will develop performance and choreographic skills in a variety of dance styles. You will follow a practical and theoretical program where you will study the work of professional choreographers, attend the theatre to watch live performances and work with a variety of professional choreographers.

You will also deepen technical and anatomical understanding of how the body functions in performance, how to look after yourself and maintain a balanced and healthy diet.

### Gyrfaoedd posib:

Perfformio / Addysgu / Gwaith cymunedol / Ffilm / Therapi Dawns / Coroegraffwr

Bydd y sgiliau trosglwyddadwy yn eich galluogi i ddod o hyd i waith mewn amryw o ddiwydiannau megis rheoli prosiect, cyfryngau, iechyd a ffitrwydd, marchnata a busnes.

### Possible Careers:

Performing / Teaching / Community Work / Film / Dance Therapy / Choreographer

The transferable skills will also enable you to find work in a variety of industries such as Project Management, Media, Health and Fitness, Marketing and Business.

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://qualifications.pearson.com/en/home.html



**Sylwad Disgybl:**
'Mae'r cyfle i astudio Dawns yn y Chweched yn wych! Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr i fod yn rhan o'r gwersi ac i gyfrannu at gyfleoedd Dawns tu allan i'r dosbarth.'

**Pupil Comment:**
'This is an excellent opportunity in our Sixth Form! I'm looking forward to being a part of the lessons and also to perform outside of the classroom in many extra curricular opportunities.'

# Drama
## Drama

Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course
https://www.wjec.co.uk/qualifications/drama-and-theatre-as-a-level

Sganiwch

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Delyth Roberts
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 40%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 60%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A* - C TGAU Drama

Profiadau perfformio tu fewn a thu allan i'r ysgol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yr Adran ac yn mynychu'r Theatr yn rheolaidd.

A* - C GCSE Drama

Experience in performing both in and outside of school.

Expected to take part in extracurricular activities and to regularly visit the Theatre.





### Beth yw Drama?

Mae Drama ac Astudiaethau Theatr yn bwnc bywiog ac amrywiol. Fe gewch gyfle i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ym maes Drama a'r Theatr. Byddwch yn astudio a pherfformio dramâu, creu a pherfformio gwaith eich hunain, dadansoddi ac ystyried perfformiadau a dramâu yn feirniadol. Prif ffocws y cwrs yw gwella eich sgiliau perfformio er mwyn i chi gael cyfle i fynd ymlaen i astudio mewn Coleg Drama neu Brifysgol.

### What is Drama?

Drama and Theatre Studies is a lively and diverse course. Candidates will have the opportunity to develop knowledge, understanding of Drama and Theatre based skills. Candidates will study and perform extracts from plays; create and perform their own work and discuss plays and performances critically. You will become an able and confident performer with the skills to apply for Drama College or a Drama course at University.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Drama?

Cewch ddewis actio neu sgil dechnego mewn unedau ymarferol sy'n seiliedig ar destunau arbennig. Byddwch yn astudio'r ddrama gyfan ac yn dethol golygfa briodol ar gyfer y perfformiad. Yn ogystal, byddwch yn creu darn dyfeisio ar thema arbennig, yn sgriptio, hel syniadau, creu cymeriadau ac yn arbrofi i greu darn o theatr gyffrous. Bydd y perfformiad yn digwydd o flaen cynulleidfa. Bydd rhaid defnyddio amrywiaeth o dechnegau theatr er mwyn creu perfformiadau arbrofol.

### What will I learn whilst studying Drama?

You can choose acting or a technical skill. These are practical units based on texts. You will study the whole play and perform a suitable extract. You will also create a devised performance based on a specific theme, writing the script, researching and creating characters and experimenting to create an exciting piece of Theatre.

### Cynnwys y cwrs:

Uned 1 – Gweithdy Theatr

Uned 2 – Testun mewn Theatr

Uned 3 – Testun ar Waith

Uned 4 – Testun mewn Perfformiad

### Course Content:

Unit 1 – Theatre Workshop

Unit 2 – Text in Theatre

Unit 3 – Text in Action

Unit 4 – Text in Performance

### Gyrfaoedd posib:

actio | gyrfa tu ôl i'r llenni, megis, coluro, gwisg, sain, dylunio set, goleuo, rheolwr llwyfan a chyfarwyddo | theatr a theledu | addysg | y gyfraith | newyddion a'r wasg | cyflwyno | gohebu | cyfarwyddwr theatr a theledu | therapydd llefaredd | gweithiwr cymdeithasol

### Possible Careers:

actor | backstage career, such as make-up artist, costume designer, set designer, lighting and sound technician, directing | theatre or television | education | law | journalism | presenter | reporter | director in theatre or television | speech therapy | social worker

### Sylwad Disgybl:

Mae gwersi drama Chweched y Fro wedi bod yn fuddiol iawn i mi. Wrth fod yn ran o gynhyrchiadau'r ysgol megis y Sioeau Cerdd a'r Cyngherddau Nadolig dwi wedi ennyn sgiliau a phrofiadau fydd yn aros gyda mi am byth. Mae'r Adran Ddrama yn cynnig profiadau a phosibiliadau lu i ni fel disgyblion y Chweched a dwi wedi elwa'n fawr o hynny mewn sawl ffordd. Mae'r athrawon bob amser wedi bod yn gefnogol ac wedi sicrhau ein bod ni'n gweithio at ein llawn potensial a dwi'n ddiolchgar iawn am hynny. Rydw i wedi mwynhau cael bod yn rhan o gymdeithas yr Adran Ddrama yn Ysgol Y Fro ac yn gobeithio bydd disgyblion y dyfodol yn cael yr un boddhad.

### Pupil Comment:

6th form drama lessons in Bro Morgannwg have been very inspirational for me over the years. By being a part of the school's productions for example, the musicals and Christmas concerts, I have learnt new skills and had experiences that will stay with me forever. The Drama department offers many possibilities and experiences for us as 6th formers and this has been beneficial for me in many ways. The teachers have always been supportive and have made sure that we work to the best of our ability and for that I am very thankful. I have enjoyed being a part of the Drama department in Ysgol Y Fro and hope that future pupils have the same fulfilment that I did.

# Dylunio Cynnyrch
## Product Design

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mr Matthew Davies
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 50%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 50%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A* - C TGAU Dylunio Cynnyrch neu Celf a Dylunio

A* - C GCSE Product Design or Art and Design




### Beth yw Dylunio Cynnyrch?

Mae cwrs mewn Dylunio a Thechnoleg yn cynnig cyfle unigryw yn y cwricwlwm i chi ddarganfod a datrys problemau go iawn trwy ddylunio a gwneud cynhyrchion mewn amrywiaeth o eang o gyd-destunau yn ymwneud â'ch diddordebau personol neu'ch dewis o yrfa.

### What is Product Design?

This course offers a unique opportunity in the curriculum for pupils to identify and solve real problems by designing and making products in a wide range of contexts relating to their personal interests or future careers.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Dylunio Cynnyrch?

Mae Dylunio a Thechnoleg yn bwnc ysbrydoledig, trwyadl ac ymarferol. Mae'r cwrs yn annog dysgwyr i ddefnyddio creadigrwydd a dychymyg wrth ddefnyddio prosesu dylunio i ddatblygu ac addasu dyluniadau, ac i ddylunio a gwneud prototeipiau sy'n datrys problemau'r byd real, ystyried eu hanghenion, dymuniadau, dyheadau a gwerthoedd eu hunain ac eraill.



### What will I learn whilst studying Product Design?

Design and Technology is an inspiring, rigorous and practical subject. It encourages learners to use creativity and imagination when applying design processes to develop and modify designs, and to design and make prototypes that solve real world problems, considering their own and others' needs, wants, aspirations and values.

### Cynnwys y cwrs:

Mae'r arholiad yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau ysgrifennu strwythuredig ac estynedig sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o:

- egwyddorion technegol
- egwyddorion dylunio a gwneud

ynghyd â'u gallu i:

- ddadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg.

Egwyddorion technegol craidd – Gweithgynhyrchu, Arloesedd, Addasrwydd at ddiben, Dylunio digidol a Gweithgynhyrchu digidol, Arferion gweithio'n ddiogel.

Egwyddorion technegol manwl – nodweddion a phriodweddau gweithiol deunyddiau, gorffeniad arwyneb, deunyddiau smart a modern, prosesau gweithgynhyrchu.

Egwyddorion craidd dylunio a gwneud – Theori dylunio, mudiadau dylunio hanesyddol. Ffactorau cymdeithasol, moesol a moesegol mewn dylunio cynnyrch. Dadansoddi a gwerthuso. Offer arbenigoll, prosesau ac offer.

Tasg dylunio a gwneud, yn seiliedig ar friff a ddatblygwyd gan yr ymgeisydd, yn asesu gallu'r ymgeisydd i adnabod, ymchwilio ac amlinellu posibiliadau dylunio, dylunio a gwneud prototeipiau, dadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg.

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/design-and-technology/r-design-and-technology-gce-2017/

### Course Content:

The examination includes a mix of structured and extended writing questions assessing learners' knowledge and understanding of:

- technical principles
- designing and making principles

along with their ability to:

- analyse and evaluate design decisions and wider issues in design and technology.

Core technical principles – Manufacturing, Innovation, Fitness for purpose, Digital design and digital manufacture. Safe working practices.

In-depth technical principles of product design – the characteristics and working properties of materials, surface finish, smart and modern materials, production processes.


Core design and making principles – design theory, key historic design movements. Social, ethical and moral considerations in product design. Analysis and evaluation. Specialist tools, processes and equipment.

A design and make task, based on a brief developed by the candidate, assessing the candidate's ability to:

- identify, investigate and outline design possibilities
- design and make prototypes
- analyse and evaluate design decisions and wider issues in design and technology.

### Gyrfaoedd posib

Targedir y cwrs at ddisgyblion sydd yn bwriadu dilyn cyrsiau Addysg Bellach neu yrfa mewn Dylunio a Thechnoleg neu feysydd cysylltiedig fel Dylunio Cynnyrch, Peirianneg, Gweithgynhyrchu, Dylunio Graffigol, Dylunio Mewnol, Tecstilau neu Bensaernïaeth.





### Possible Careers

It is intended to be of interest to those of you who aim to follow a higher education course or career in Design and Technology or an associated area such as Product Design, Graphic Design, Engineering, Manufacturing, Interior Design or Architecture.

**Sylwad Disgybl:**

"Mae dewis Dylunio Cynnyrch yn un buddiol iawn am eich dyfodol. Mae'r cwrs yn hybu creadigrwydd a gwaith angerddol iawn. Dewisais Ddylunio Cynnyrch i gael siawns i arbrofi gyda dulliau gwahanol o weithio. Mae amryw o waith ysgrifennu, dylunio cyfrifiadurol, datrys problemau a gweithio gyda'ch dwylo. Yn ogystal mae cyfleoedd i ymweld â diwydiant a gweld prosesau creu modern."

**Pupil Comment:**

"I think that the choice of Product Design will be a wise one for my future. The course promotes creativity and developing areas of interest. I chose Product Design in order to experiment with different methods of working. There is an interesting blend of theory, computer design, problem solving and practical work. As well as this we've had the opportunity to visit industry to see modern manufacturing methods."


# Ffiseg
## Physics

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mr Dewi Davies
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 100%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 0%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A* - B TGAU Ffiseg Haen Uwch
A* - B TGAU Mathemateg/Rhifedd Haen Uwch

A* - B GCSE Physics Higher Tier
A* - B GCSE Mathematics/Numeracy Higher Tier



### Beth yw FFiseg?

Mae Ffiseg yng nghalon pob peth ac yn bwnc diddorol iawn i astudio yn yr ysgol, prif ysgol ac yn bellach. Mae Ffiseg yn helpu darganfod atebion i gwestiynau anodd fel sut ddechreuodd y bydysawd a sut y bydd yn dod i ben? Beth yw twll du? Ydy e'n bosib teithio yn ôl mewn amser? Ffiseg sy'n darparu'r sylfaen i ddatblygiad technolegau newydd a dyfodol ein byd. O ddarnau lleiaf ein cyrff i'r galaethau mwyaf, Ffiseg sy'n helpu ni i ddeall sut mae ein bydysawd yn gweithio.

### What is Physics?

Physics is at the heart of everything and is a highly rewarding discipline to study at school, university and beyond. It helps find answers to questions such as how did the universe begin and how will it end? What is a black hole? Is time travel possible? Physics forms the basis of most modern technologies and holds the future to global well-being. From the smallest part of the human body to the great clusters of galaxies, physics helps us understand how our world works.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn FFiseg?

UG Uned 1 Mudiant, Egni a Mater

UG Uned 2. Trydan a Golau

U2 Uned 3. Osgiliadau a Niwclysau

U2 Uned 4. Meysydd ac Opsiynau

U2 Uned 5. Arholiad Ymarferol

### What will I learn whilst studying Physics?

AS Unit 1. Motion, Energy And Matter

AS Unit 2. Electricity and Light

U2 Unit 3. Oscillations and Nuclei

U2 Unit 4. Fields and Options

U2 Unit 5. Practical Examination

### Gyrfaoedd posib

Mae Ffiseg yn agor drysau i amrywiaeth o yrfaoedd. Mae dros hanner y ffisegwyr yn gweithio ym meysydd ymchwiliol a datblygiad, peirianneg a thechnoleg gwybodaeth. Mae eraill yn gweithio ym meddyginiaeth, seryddiaeth, meteoroleg a dysgu. Mae cyfleon da i'w cael yn y sectorau ariannol, telathrebu a diwydiant trydanol, pob un â thâl uchel o tua £40,000. Mae rhai Ffisegwyr yn gweithio i ddatrys problemau ar ffin ein dealltwriaeth ac eraill yn defnyddio Ffiseg i ddatrys problemau heriol sy'n codi o agweddau diwydiannol ym mywyd pob dydd.

### Possible Careers

Physics opens doors to a wide variety of careers. Over half of all physicists work in Research and Development, Engineering, and Information Technology. Others work in medicine, astronomy, meteorology and of course, teaching. Careers that can offer physicists good employment opportunities and some of the best-paid jobs are in the financial sectors, telecommunications and the electrical industry - each with an average salary of about £40,000. Some physicists work on problems at the frontiers of knowledge; others tackle the challenging problems that arise in the application of physical ideas to industrial and engineering problems - offering personal satisfaction as great as that from work in 'frontier' physics.

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/physics-as-a-level



**Sylwad Disgybl:**

"Er ei fod yn anodd, Ffiseg yw un o'r pynciau sydd byth yn mynd yn ddiflas. Mae'r gwaith a'r gwersi yn ddiddorol, gydag amrywiaeth o destunau ac arbrofion sy'n agor eich llygaid i sut mae'r byd yn gweithio!"

"Rwy'n hoff iawn o'r gwersi, mae yna gydbwysedd dda rhwng gwersi theori ac arbrofion ddosbarth."

"Mae ystod eang o unedau sydd yn rhoi sylfaen dda i waith prifysgol."

**Pupil Comment:**

"Although difficult, Physics is one of the subjects that never gets boring. The work and lessons are interesting, with a variety of topics and experiments that open your eyes to how the world works! "

"I really enjoy the lessons, there is a good balance between theory lessons and classroom experiments."

"There is a wide range of units that provide a good foundation for university work."

# Ffrangeg
## French

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Mari Davies
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 100%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 0%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A* - C TGAU Ffrangeg Haen Uwch

A* - C GCSE French Higher Tier



### Beth yw Ffrangeg?

Mae'r cwrs Safon Uwch Ffrangeg wedi'i anelu at fyfyrwyr sydd ag angerdd am ieithoedd ac â diddordeb mewn diwylliant Ffrainc a gwledydd Ffrangeg eu hiaith. Bydd Safon Uwch Ffrangeg yn rhoi cyfle i chi ennill ystod eang o sgiliau ieithyddol gan gynnwys geirfa helaeth ac ystod o strwythurau gramadegol. Yn ystod y cyrsiau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch bydd myfyrwyr yn cael cyfle i archwilio materion a thueddiadau cymdeithasol yn ogystal â diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig yn y byd Ffrangeg ei hiaith. Mae Ffrangeg yn bwnc cydnabyddus ac academaidd sydd yn agor y drysau i'r byd o'ch cwmpas. Mae'n bwnc defnyddiol sydd yn datblygu ystod eang o sgiliau yn amrywio o gyfathrebu, deall gwahaniaeth ac amrywiaeth hyd at ddinsasyddiaeth a datrys problemau.

### What is French?

The French A level course is aimed at students who have a passion for languages and have an interest in French culture and French-speaking countries. A-level French will give you the opportunity to gain a wide range of linguistic skills including an extensive vocabulary and a range of grammatical structures. During the AS and A Level course, students will have the opportunity to explore social issues as well as political, intellectual and artistic culture in the French-speaking world. French is a well-recognized and academic subject that opens the doors to the world around you. It is a subject that will aid you in developing a wide range of skills ranging from communication, understanding difference and diversity through to citizenship and problem solving.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Ffrangeg?

Bydd y gwersi'n cynnwys cyfnodau dysgu themâu a thrafodaethau dosbarth er mwyn gwella gwaith ysgrifenedig a sgiliau llafar. Bydd gwaith gramadegol yn cael ei blethu drwy'r holl wersi er mwyn gwella cywirdeb a dealltwriaeth o strwythur yr iaith. Bydd disgyblion yn cael eu hannog i ddefnyddio amrediad eang o adnoddau gan gynnwys unedau a nodiadau'r ysgol, y we a gwefannau Quizlet a Memrise. Bydd gwaith llafar, ysgrifenedig a phrofion gramadeg yn cael eu cyflawni drwy gydol y ddwy flynedd. Yn ystod y cwrs byddwch hefyd yn ehangu eich ymwybyddiaeth o wledydd Ffrangeg ei hiaith drwy edrych yn fanylach ar ddiwylliant y gwledydd hyn gan gynnwys astudio llenyddiaeth a ffilmiau Ffrangeg a'u cyd-destun.

### What will I learn whilst studying French?

The lessons will include whole class topic studies and discussions to improve written work and oral skills. Grammatical work will be woven through all the lessons in order to improve the accuracy and understanding of the structure of the language. Pupils will be encouraged to use a wide range of resources including school units as well as sites such as Quizlet and Memrise. Oral, written and grammar tests will be carried out throughout the two years. During the course you will also broaden your awareness of French-speaking countries by taking a closer look at the culture of these countries including studying French literature and films in their contexts.

### Cynnwys y cwrs:

Thema 1: (UG) Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Ffrangeg ei hiaith

Thema 2: (UG) Deall y byd Ffrangeg ei iaith

Thema 3: (Safon Uwch) Amrywiaeth a Gwahaniaeth

Thema 4: (Safon Uwch) Ffrainc 1940-1950: Y Goresgyniad a'r blynyddoedd wedi'r rhyfel

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/french-as-a-level



### Course Content:

Theme 1: (AS) Being a young person in French-speaking society

Theme 2: (AS) Understanding the French-speaking world

Theme 3: (A level) Diversity and difference

Theme 4: (A-level) France 1940-1950: The Occupation and the post-war years

### Gyrfaoedd posib:

Mae ieithoedd yn agor drysau i ystod eang tu hwnt o yrfaoedd megis swyddi ym myd addysg, y gyfraith, y cyfryngau, recriwtio a llawer mwy. Mae prinder mawr o bobl ym Mhrydain sy'n medru siarad ieithoedd tramor, felly mae astudio iaith fodern ar gyfer Lefel A yn sgil perthnasol mewn pob math o feysydd, ac yn sgil sy'n cael ei hystyried yn ddeniadol iawn gan brifysgolion a chyflogwyr. Ffrangeg yw un o ieithoedd mwyaf amlwg Ewrop, ac mae'n cael ei siarad yn ogystal yn Québec yng Nghanada. Os ewch chi ymlaen i'r brifysgol, bydd cyfle i chi dreulio blwyddyn yn un o'r gwledydd hyn fel rhan o'ch gradd.



### Possible careers:

Languages open doors to a wide range of careers within a variety of different fields such as law, education, publishing, recruitment and many more. There is a desperate shortage of people in the UK who can speak foreign languages, consequently studying a modern language at A level is a relevant skill which prepares students for a wide variety of careers; it is also a skill that is seen as very attractive by universities and employers. French is one of the most prominent languages of Europe and is also spoken in Québec, Canada. If you choose to continue to study French at university, you will be able to visit one of these countries during your year abroad.

**Sylwad Disgybl:**

"Penderfynais astudio Ffrangeg i Lefel A gan ei fod yn ehangu cysylltiadau byd-eang ac yn agor drysau i swyddi amrywiol yn y dyfodol"

**Pupil Comment:**

"I decided to study French at A level as it expands global links and opens the doors to various jobs in the future."

# Gwleidyddiaeth
## Politics

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mrs Rhiannon James
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 100%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 0%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Cymraeg Iaith

Diddordeb cyffredinol yn Ngwleidyddiaeth yn hanfodol

A*- C GCSE Welsh Language

General interest in Politics is essential.



### Beth yw Gwleidyddiaeth?

Gwleidyddiaeth yw'r astudiaeth o ddigwyddiadau yn gysylltiedig gyda llywodraethant gwlad neu ardal.

### What is Politics?

The study of the activities associated with the governance of a country or area.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Gwleidyddiaeth?

Ar lefel UG, bydd dysgwyr yn astudio dwy uned orfodol gan feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth eang am y system wleidyddol yng Nghymru a'r DU. Mae'r uned gyntaf yn canolbwyntio ar y drefn lywodraethu, gan ystyried strwythurau seneddol, adrannau gweithredol craidd a llywodraethiant aml-lefel yng Nghymru ac yn y DU yn gyffredinol. Mae'r ail uned yn canolbwyntio ar gyfranogiad ac ymddygiad pleidleisio, systemau etholiadol, pleidiau gwleidyddol a charfanau pwyso/protest.

Bydd y dysgwyr hynny sy'n symud ymlaen i astudio ar lefel Uwch yn astudio dwy uned orfodol ac yn cael cyfle i arbenigo ymhellach ar lefel U2. Mae'r uned cysyniadau a damcaniaethau gwleidyddol yn canolbwyntio ar feithrin gwybodaeth feirniadol am bedwar traddodiad ideolegol allweddol a'u perthnasedd cyfoes i wleidyddiaeth yng Nghymru ac ar lefel fyd-eang. Mae'r uned llywodraeth a gwleidyddiaeth UDA yn canolbwyntio ar y syniadau a'r sefydliadau sy'n sail i system wleidyddol America.

### What will I learn whilst studying Politics?

The course will allow students to develop a knowledge and understanding of contemporary political structures and issues within Wales and United Kingdom (UK); knowledge and understanding of broader global political structures and issues; knowledge and understanding of the influences and interests which have an impact on decisions in government and politics and an awareness of the changing nature of politics and the relationships between political ideas, institutions and processes.

### Cynnwys y cwrs:

Uned 1: Llywodraeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig

Uned 2: Byw a chyfranogi mewn democratiaeth

Uned 3: Cysyniadau a damcaniaethau gwleidyddol

Uned 4: Llywodraeth a gwleidyddiaeth UDA

### Course Content:

Unit 1: Government in Wales and the United Kingdom

Unit 2: Living and participating in a democracy

Unit 3: Political concepts and theories

Unit 4: Government and politics of the USA

### Gyrfaoedd posib:

Mae'r gyrfaoedd posib ar ôl astudio gwleidyddiaeth yn amrywiol.Yn uniongyrchol, y swyddi mwyaf amlwg am astudio gwleidyddiaeth yw i weithio ar ran gwleidyddydd fel ymchwilydd; gweithio i'r wasanaeth sifil; neu gwaith i'r cyngor lleol. Yn ogystal, mae nifer o swyddi sy'n gysylltiedig gyda'r pwnc er engraifft newyddiaduraeth; y gyfraith ac ymchwilydd.

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/government-and-politics-as-a-level



### Possible Careers:

A politics degree opens doors to a broad range of careers, the most obvious of which would be to work as a researcher for a politician, as a civil servant or for local authority. Also, other options might be journalism, HR and marketing.

**Sylwad Disgybl:**

"Mae dysgu am Wleidyddiaeth wedi ehangu fy nealltwriaeth o beth sy'n digwydd yn y DU yn ystod y cyfnod diddorol rydym yn gwynebu"

**Pupil Comment:**

"Studying Politics has broadened my understanding of what's happening in the UK during these interesting times"

# Gwyddorau Meddygol

## Medical Science

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Ms Cari Ormerod
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 37.5%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 62.5%



**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Mathemateg/Rhifedd
A*- C TGAU mewn un pwnc Gwyddoniaeth

A*- C GCSE Mathematics/Numeracy
A*- C GCSE in one Science subject

### Beth yw Gwyddor Feddygol?

Gwyddor Feddygol yw'r wyddor o ymdrin â chynnal iechyd, ac atal a thrin clefydau. Datblygwyd Diploma Lefel 3 mewn Gwyddor Feddygol i ddysgwyr sydd â diddordeb mewn gyrfaoedd yn ymwneud â gofal iechyd ac ymchwil feddygol. Mae gwyddonwyr meddygol ar flaen y gad ym maes gwasanaethau gofal iechyd, gan fod eu gwaith yn hanfodol wrth roi diagnosis o glefydau, canfod effeithiolrwydd triniaethau a chwilio am ffyrdd newydd o iachâd.

### What is Medical Science?

Medical Science is the science of dealing with the maintenance of health and the prevention and treatment of diseases. The Level 3 Diploma in Medical Science is for learners who are interested in careers related to healthcare and medical research. Medical scientists are at the forefront of healthcare services, as they are vital in the diagnosis of disease, determining the effectiveness of treatments and searching for new cures.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Gwyddor Feddygol?

Mae'r gymhwyster yn cwmpasu meysydd allweddol iechyd, ffisioleg a chlefydau, yn ogystal â darparu'r cyfle i astudio ffarmacoleg, mesur ffisiolegol, profi clinigol ac ymchwil feddygol. Mae gan bob uned ddiben clir ym maes gwyddor feddygol, sy'n canolbwyntio ar ddysgu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwyddonol mewn cyd-destun ystyrlon. Mi fydd disgyblion yn astudio'r tair uned gyntaf ym mlwyddyn 12 i gwblhau'r Dystysgrif mewn Gwyddor Feddygol. Bydd disgyblion sy'n parhau ym mlwyddyn 13 yn astudio'r tair uned olaf i gwblhau'r cymhwyster Diploma Lefel 3 mewn Gwyddor Feddygol sy'n gyfwerth mewn maint ag un cymhwyster TAG Safon Uwch.

### What will I learn whilst studying Medical Science?

The qualification covers the key topic areas of health, physiology and disease, as well as providing the opportunity to study the areas of pharmacology, physiological measurement, clinical testing and medical research.

Each unit has a clear medical science purpose which focuses the learning of scientific knowledge, understanding and skills into a meaningful context. Pupils will study the units required to complete the Level 3 Certificate in Medical Science in Year 12. Pupils whom continue their studies into Year 13 will complete three further units to achieve the level 3 Diploma in Medical Science which is equivalent in size to one A level.

### Cynnwys y cwrs:

**Blwyddyn 12- Tystysgrif Lefel 3 mewn Gwyddor Feddygol**

- Iechyd a chlefydau dynol (Arholiad- asesiad allanol)
- Technegau mesur ffisiolegol (Gwaith cwrs- asesiad mewnol)
- Dulliau ymchwil Gwyddor Feddygol (Gwaith cwrs- asesiad mewnol)

**Blwyddyn 13 - Diploma Lefel 3 mewn Gwyddor Feddygol**

- Meddyginiaethau a thrin clefydau (Gwaith cwrs- asesiad mewnol)
- Technegau labordy clinigol (Gwaith cwrs- asesiad allanol)
- Astudiaeth achos meddygol (Arholiad- asesiad allanol)

### Course Content:

**Year 12- Level 3 Certificate in Medical Science which is equivalent to half an A level**

- Human health and disease (Examination- external assessment)
- Physiological measurement techniques (Coursework- internal assessment)
- Medical Science research methods (Coursework- internal assessment)

**Year 13- Level 3 Diploma in Medical Science is equivalent in size to one A level**

- Medicines and treatment of disease (Coursework- internal assessment)
- Clinical laboratory techniques (Coursework- external assessment)
- Medical case study (Examination - external assessment)

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/medical-science-level-3

### Gyrfaoedd posib:

Prif ddiben y gymhwyster yw sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau mewn egwyddorion gwyddonol allweddol a fydd yn eu cefnogi i addysg uwch neu gyflogaeth mewn meysydd sy'n gysylltiedig â Gwyddor Feddygol. Mae'r gymhwyster yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth wyddonol i ddysgwyr, yn ogystal â sgiliau ymarferol bydd yn eu cefnogi wrth symud ymlaen at amrywiaeth o swyddi yn y maes gofal iechyd. Swyddi fel rhai ym maes gwyddorau bywyd, hynny yw cynnal amrywiaeth o brofion labordy a phrofion gwyddonol i gynorthwyo wrth rhoi diagnosis a thrin clefydau. Gallai hyn gynnwys ymchwiliad microsgopig o samplau o feinwe, dadansoddi celloedd gwaed i ymchwilio i anaemia, neu ddadansoddi samplau i nodi'r hyn sydd wedi achosi haint. Fel arall, byddai cyfleoedd hefyd i symud ymlaen i swyddi yn y gwyddorau ffisiolegol, gan weithio'n uniongyrchol gyda chleifion, yn mesur a gwerthuso organau a systemau penodol, fel gwyddonwyr sy'n gweithio ym maes niwroffisioleg yn cofnodi gweithgarwch trydanol yr ymennydd. Mae cyfran sylweddol o'r cyfleoedd gyrfa yn y sector hwn ar lefel gradd. O gael ei ategu gan gymwysterau priodol eraill, bydd Diploma Lefel 3 mewn Gwyddor Feddygol yn caniatáu symud ymlaen i addysg uwch mewn amrywiaeth o raglenni Gwyddoniaeth Gymhwysol, fel gwyddor fiofeddygol, gwyddorau bywyd a ffisioleg.



### Possible Careers:

The main purpose of the qualification is to provide learners with the knowledge, understanding and skills in key scientific principles to support progress to higher education or employment in areas of Medical science, such as job roles in physiological sciences or clinical laboratory services. This qualification equips learners with scientific knowledge and understanding, as well as practical skills that would support progression to a range of job roles within health care. Job roles such as those within the areas of life sciences, i.e. carrying out a range of laboratory and scientific tests to support the diagnosis and treatment of disease, this could include microscopic examination of tissue samples, analysis of blood cells to investigate anaemia or analysis of samples to identify the cause of an infection. Alternatively there would also be opportunities to progress to job roles within the physiological sciences, working directly with patients, measuring and evaluating particular organ and systems, such as scientists working in neurophysiology recording the electrical activity in the brain. A significant proportion of career opportunities in this sector are at degree level. When supported by other appropriate qualifications, the Level 3 Diploma in Medical Science will enable progression to higher education to a range of Applied Science programmes, such as biomedical science, life sciences, and physiology.

**Sylwad Disgybl:**

Rwyf wedi dysgu llawer wrth ddilyn y cwrs gan bod yr athrawes yn dysgu'r gwaith yn fanwl. Teimlaf bod hwn yn opsiwn da i ddisgyblion ffeindiodd TGAU yn anodd, gan bod llai o arholiadau a mwy o bwyslais ar waith cwrs.

**Pupil Comment:**

"I have learnt a great deal from studying the course, the work is varied and the teacher covers the content in detail. It is a very good option for pupils who found GCSE's more challenging as there is a greater emphasis on coursework and less on examinations."

# Gwyddor Bwyd a Maeth Lefel 3
## Food Science and Nutrition Level 3

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs** | **Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/food-science-and-nutrition-level-3

Sganiwch

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Stephanie Johns
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 50%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 50%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

Lletygarwch ac Arlwyo Lefel 2 ('pass' neu'n uwch) yn ddelfryfol. Nid yw astudio Lefel 2 yn orfodol

Food Science and Nutrition Level 2 (pass or above) is ideal. Studying Level 2 is not essential




### Beth yw Gwyddor bwyd a maeth?

Mae dealltwriaeth Gwyddor Bwyd a Maeth yn berthnasol ar gyfer nifer o ddiwydiannau a swyddi gwahanol. Mae darparwyr gofal a maethynnwyr mewn ysbytai yn defnyddio'r wybodaeth yma. Fel mae hyfforddwyr chwaraeon a hyfforddwyr ffitrwydd. Mae bwytai a gwestai, cynhyrchwyr bwyd ac asiantaethau'r llywodraeth yn defnyddio'r wybodaeth yma i gynllunio polisïau, bwydlenni a chynnyrch bwyd sydd yn cefnogi ymgyrchoedd bwyta'n iach.

### What is Food Science and Nutrition?

An understanding of food science and nutrition is relevant to many industries and job roles. Care providers and nutritionists in hospitals use this knowledge, as do sports coaches and fitness instructors. Hotels and restaurants, food manufacturers and government agencies also use this understanding to develop menus, food products and policies that that support healthy eating initiatives.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Gwyddor Bwyd a Maeth?

Bydd ymgeiswyr yn cael y cyfle i ddysgu am y berthynas rhwng y corff dynol a bwyd yn ogystal â sgiliau ymarferol er mwyn coginio a pharatoi bwyd

### What will I learn whilst studying Food Science and Nutrition?

Students will have the opportunity to learn about the relationship between the human body and food as well as practical skills for cooking and preparing food.

### Cynnwys y cwrs:

1 Bodloni anghenion maethol grwpiau penodol

2 Sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta

3 Arbrofi i ddatrys problemau cynhyrchu bwyd

4 Materion cyfoes mewn gwyddor bwyd a maeth





### Course Content:

1 Meeting the nutritional needs of specific groups

2 Ensuring food is safe to eat external

3 Experimenting to solve food production

4 Current issues in food science and nutrition

### Gyrfaoedd posib:

Ynghyd â chymwysterau Lefel 3 perthnasol megis cymwysterau Lefel UG a Safon Uwch mewn Bioleg, Cemeg, Cymdeithaseg a Mathemateg a / neu Lefel 3 mewn Lletygarwch neu Wyddoniaeth, bydd dysgwyr yn cael y wybodaeth angenrheidiol i symud ymlaen i gyrsiau gradd addysg uwch, megis:

- BSc Bwyd a Maeth
- BSc Maeth Dynol
- BSc (Anrh) Maeth Iechyd y Cyhoedd
- BSc (Anrh) Gwyddoniaeth a Thechnoleg Bwyd






### Possible Careers:

Together with relevant Level 3 qualifications such as AS and A Levels in Biology, Chemistry, Sociology and Maths and/or Level 3 qualifications in Hospitality or Science, learners will gain the required knowledge to progress to higher education degree courses, such as:

· BSc Food and Nutrition
· BSc Human Nutrition
· BSc (Hons) Public Health Nutrition
· BSc (Hons) Food Science and Technology

**Sylwad Disgybl:**

Mae llawer o agweddau'r cwrs wedi gwneud ym ml 12, felly mae hyn yn rhoi hyder i ni am ein bod wedi gwneud yn sylfaenol unwaith. Rydym yn ymestyn sgiliau ymarferol TGAU. Mae dysgu gwybodaeth ar faeth yn arwain at nifer o yrfaoedd gwahanol. Nid yw'r cwrs yma fel unrhyw gwrs lefel A arall. Ni'n hoffi fe!

**Pupil Comment:**

A lot of the elements of the course are done in Yr 12, and this gives me the confidence as I've done the basics once. We are given a chance to develop practical skills from GCSE. Learning about nutrition can lead to lots of different careers. This course isn't like any other A Level course. We like it!

# Hanes
## History

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mrs Rhiannon James
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 80%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 20%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Hanes
A*- C TGAU Cymraeg Iaith
A*- C GCSE History
A*- C GCSE Welsh Language



**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/history-as-a-level

Sganiwch



### Beth yw Hanes?

Haneswyr! Wrth astudio'r gorffennol, gallwn wau'r dyfodol. Mae'r cwrs yn gofyn i chi ddefnyddio eich gwybodaeth, dealltwriaeth a beirniadaeth i gadw Hanes yn fyw. Mae Hanes yn ddefnyddiol er mwyn datblygu eich sgiliau i fynegi barn, cyflwyno syniadau a dadleuon, casglu ac ymchwilio deunydd a threfnu deunydd mewn ffordd gydlynol. Mae Hanes yn bwnc academaidd ac mae'r sgiliau y byddwch yn meithrin trwy astudio'r pwnc yn gallu cynnig rhywbeth i bob swydd a chwrs coleg neu brifysgol. Mae'n gymhwyster atyniadol i gyflogwyr.

### What is History?

Historians! By looking at the past, we can see into the future. This course requires us to utilise our understanding and knowledge to bring History alive. The study of History develops our skills to express clearly in both oral and written form, gather and investigate sources, and organising materials in a logical and coherent way. History is an academic subject, and the skills that you will master through its study increases many opportunities for both further education and careers.

### Beth fyddech yn dysgu o fewn Hanes?

Bwriad y cwrs yw i gynnig astudiaeth gyffrous ac amrywiol, ac i sicrhau rydym yn astudio rhai cyfnodau hanesyddol gwahanol o'r hyn ag astudiwyd yn y cwrs TGAU. Byddwch yn astudio digwyddiadau hanesyddol hynod o ddiddorol a chyfareddol o fewn cyfnodau modern a chanoloesol yn ystod y cwrs.

Defnyddir sawl dull o ddysgu ac addysgu megis trafodaeth seminar, cyflwyniadau llafar, ymchwilio ffynonellau, fideos, ymchwilio trwy ddefnyddio TGCh ac ymweliadau addysgol. Gobeithir hefyd trefnu darlithoedd allanol. Disgwylir i chi ymchwilio a darllen yn annibynnol.

### What will I learn whilst studying History?

The course is intended to offer an exciting and varied study of History, and to ensure that we study different historical periods from that studied in the GCSE course. You will study fascinating historical events within modern and medieval periods during the course.

Several approaches to learning and teaching are used such as seminar discussion, oral presentations, researching sources, videos, research using ICT, educational visits and external lectures. You are expected to research and read independently.

### Cynnwys y cwrs Hanes:

Uned 1 – Llywodraeth, Gwrthryfel a Chymdeithas yng Nghymru a Lloegr 1485-1603

Uned 2 – Yr Almaen: Democratiaeth i Unbennaeth 1918-1945

Uned 3 – Y Ganrif Americanaidd 1890-1990

Uned 4 - Yr Almaen: Democratiaeth i Unbennaeth 1918-1945

Uned 5 – Ymchwiliad Hanesyddol Unigol

### Course Content:

Unit 1 – Government, Rebellion and Society in Wales and England 1485-1603

Unit 2 – Germany: Democracy to Dictatorship 1918-1945

Unit 3 – The American Century 1890-1990

Unit 4 - Germany: Democracy to Dictatorship 1918-1945

Unit 5 – Historical Investigation

### Gyrfaoedd posib:

Mae Hanes yn fanteisiol ar gyfer y gyfraith, newyddiaduriaeth, swydd mewn archifdy ac amgueddfa, llyfrgellyddiaeth, gwasanaeth sifil, addysg, heddlu, lluoedd arfog, swyddi rheoli, y byd marchnata a gwerthu

### Possible careers:

History is an appealing qualification for numerous employers such as law, journalism, archive and museum work, librarianship, civil service, education, police, armed forces, management, marketing and selling.

### Sylwad Disgybl:

'Er ein bod ni'n astudio digwyddiadau o'r gorffennol, mae Hanes yn berthnasol i'r presennol a'r dyfodol. Mae astudio Hanes wedi caniatáu i mi ddatblygu nifer o sgiliau, yn enwedig sgiliau dadansoddi a gwerthuso sy'n caniatáu i mi edrych ar y byd fel hanesydd. Un o fy mhrofiadau mwyaf cofiadwy wrth astudio Lefel A Hanes oedd mynd i Auschwitz fel rhan o'r prosiect 'Lessons from Auschwitz'. Roedd hwn yn brofiad bythgofiadwy!'

### Pupil Comment:

'Although we study events from the past, History is relevant to the present and the future. Studying History has allowed me to develop many skills, especially analytical and evaluative skills that allow me to look at the world as a historian. One of my most memorable experiences while studying A Level History was going to Auschwitz as part of the 'Lessons from Auschwitz' project. This was an unforgettable experience.'

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lefel 3)
## Health and Social Care (Level 3)

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**

https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/lefel-3-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-egwyddorion-a-chyd-destunau

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Stephanie Johns
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 50%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 50%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

Iechyd a Gofal Cymdeithasol BTEC Lefel 2 yn ddelfrydol ond nid yn hanfodol.

Health and Social Care BTEC Level 2 is ideal but not essential.



### Beth yw Iechyd a Gofal Cymdeithasol?

Mae'r cymwysterau yn eich galluogi chi i feithrin a dangos eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae gofyn i chi eu cyflawni yn rhan o'r cymwysterau hyn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Os ydych chi'n dilyn unrhyw un o'r cymwysterau hyn, argymhellir yn gryf eich bod wedi cwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, neu eich bod yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Er mwyn cwblhau'r cymhwyster Diploma, bydd angen i chi ymgysylltu â'r sector am isafswm o 100 awr, a rhaid treulio 60 o'r oriau hynny ar leoliad gwaith.

### What is Health and Social Care?

The qualifications enable you to develop and demonstrate knowledge, skills and understanding within the context of health and social care services. The knowledge, understanding and skills you are required to achieve within these qualifications build on the content of the Level 2 Health and Social Care: Core qualification. It is strongly recommended that, if you are undertaking either of these qualifications, you have completed or are currently completing the Level 2 Health and Social Care: Core qualification. For completion of the Diploma qualification, you will need to undertake a minimum of 100 hours of sector engagement, of which 60 hours must be spent undertaking a work placement.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol?

Drwy astudio Lefel 3 Tystysgrif a/neu Ddiploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, byddwch chi'n gallu meithrin a dangos eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn arbennig, byddwch chi'n gallu dangos eich bod yn:

- deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gallu eu cymhwyso at amrywiaeth o gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol
- deall a myfyrio ar sut y gellir nodi anghenion unigryw unigolion ac ymateb iddynt
- deall y modd y gellir hybu a chefnogi ymarfer a llesiant person-ganolog ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- gallu dadansoddi, dehongli a gwerthuso damcaniaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a myfyrio ar y modd y gallent ddylanwadu ar ymarfer
- ymwybodol o newidiadau polisi yn y sector a'r modd y mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau
- gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol o fewn eich astudiaethau

### What will I learn whilst studying Health and Social Care?

By studying Level 3 Certificate and/or Diploma in Health and Social Care: Principles and Contexts, you will be able to develop and demonstrate your knowledge, skills and understanding within the context of health and social care services. In particular, you will be able to demonstrate that you:

- understand the principles and values which underpin health and social care practice and can apply them to a range of health and social care contexts
- understand and reflect on the ways in which individuals' unique needs can be identified and responded to
- understand ways in which effective, person-centred practice and well-being within health and social care can be promoted and supported
- can analyse, interpret and evaluate theories in health and social care and reflect on how they could influence practice
- are aware of changing sector policy and how these changes affect service development and delivery
- can use literacy, numeracy, research and digital competency skills as appropriate within your study



### Cynnwys y cwrs:

Uned 1: Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

Uned 2: Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau ac anghenion gofal a chymorth

Uned 3: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes

Uned 4: Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol

Uned 5: Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael

Uned 6: Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol



### Course Content:

Unit 1: Principles of care and safe practice within outcome-focused, person-centred care

Unit 2: Factors affecting individuals' growth and development across the lifespan and how this impacts on outcomes, care and support needs

Unit 3: Promoting the rights of individuals across the lifespan

Unit 4: Understanding how the human body is affected by common conditions

Unit 5: Supporting individuals at risk to achieve their desired outcomes

Unit 6: Working in the health and social care sector

### Gyrfaoedd posib:

Mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaus a gwerthfawr i chi hyd yn oed os nad ydych chi'n mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach, ond gallwch chi hefyd symud ymlaen i gymwysterau eraill o fewn y gyfres Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant; er enghraifft, cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer. Mae hefyd yn cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol drwy amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch neu brentisiaethau

### Possible Careers

The specification provides a coherent, satisfying and worthwhile course of study even if you do not progress to further study in this subject, although you may also progress to other qualifications within the Health and Social Care and Childcare suite; for example, the Level 2 and Level 3 Health and Social Care Practice qualifications. It also provides a suitable foundation for the study of health and social care through a range of higher education courses, or apprenticeships.

# Mathemateg
## Mathematics

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Alaw Ifans
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 100%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 0%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- B TGAU Mathemateg a Rhifedd Haen Uwch

A*- B GCSE Mathematics and Numeracy Higher Tier



### Beth yw Mathemateg?

Mae mathemateg, yn ei hanfod, yn bwnc dilyniannol. Mae dilyniant yn y deunydd a astudir wrth fynd o lefel i lefel drwy'r pwnc. Felly, mae cynnwys y fanyleb yn adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a nodwyd yn holl gynnwys y pwnc Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd ar lefel TGAU.

### What is Mathematics?

Mathematics is, inherently, a sequential subject. There is a progression of material through all levels at which the subject is studied. The specification content therefore builds on the skills, knowledge and understanding set out in the whole GCSE subject content for Mathematics and Mathematics-Numeracy.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Mathemateg?

Yn ystod y cwrs hwn byddwch yn ehangu eich gwybodaeth am algebra a geometreg o TGAU ac archwilio'r ffyrdd y gellir cymhwyso mathemateg yn y byd go iawn. Ymhlith y meysydd y byddwch yn ymdrin â nhw mae:

• Pynciau newydd fel geometreg cydlynu, cyfresi, gwahaniaethu ac integreiddio, pob un ohonynt yn algebraidd iawn ac yn gyflwyniad rhagorol i fathemateg ar lefel uwch.

• Canghennu ymhellach i mewn i fathemateg graidd gyda phynciau fel logarithmau ac esbonyddol, mesurau radian a thrigonometreg lefel uwch.

• Mathemateg pur fwy cymhleth gan gynnwys proflenni trigonometrig, gwahaniaethu ac integreiddio pellach yn ogystal â dulliau rhifiadol ar gyfer dod o hyd i atebion.

• Gwaith pellach a mwy cymhleth ar gydlynu geometreg yn ogystal â fectorau mewn 3D. Mae llawer o'r fathemateg a astudiwyd mewn modiwlau craidd cynharach wedi'u cysylltu gyda'i gilydd yma.

Mecaneg ac Ystadegau: mae'r papur cymhwysol hwn yn cyflwyno myfyrwyr i fodelu mathemategol o brofiadau bob dydd, fel gyrru car, taflu pêl i fyny yn yr awyr, cerdded ar draws pont a chwarae snwcer. Gan ddefnyddio ystadegau, byddwch hefyd yn gorfod dehongli mesurau tueddiad ac amrywiad canolog, gan ymestyn i wyriad safonol, deall a defnyddio dosraniadau tebygolrwydd arwahanol syml gan gynnwys y dosbarthiad binomial.

### What will I learn whilst studying Mathematics?

During this course you will learn to extend your knowledge of algebra and geometry from GCSE and explore the ways in which mathematics can be applied in the real world. Areas which you will cover include:

• New topics such as coordinate geometry, series, differentiation and integration, all of which are highly algebraic and are an excellent introduction to maths at a higher level.

• Branching further into core maths with topics such as logarithms and exponentials, radian measures and higher level trigonometry.

• More complex pure maths including trigonometric proofs, further differentiation and integration as well as numerical methods for finding solutions.

• Further and more complex work on coordinate geometry as well as vectors in 3D. Lots of the maths studied in earlier core modules is linked together here.

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/mathematics-a-as-level

Mechanics and Statistics: this applied paper introduces students to mathematical modelling of everyday experiences, like driving a car, throwing a ball up in the air, walking across a bridge and playing snooker. Using statistics, you will also get to interpret measures of central tendency and variation, extending to standard deviation, understand and use simple, discrete probability distributions.



### Cynnwys y cwrs:

UG Uned 1: Mathemateg Bur A (25% o'r cymhwyster)

UG Uned 2: Mathemateg Gymhwysol A (15% o'r cymhwyster)

Mae dwy adran i'r papur: Adran A: Ystadegaeth Adran B: Mecaneg

U2 Uned 3:Mathemateg Bur B (35% o'r cymhwyster)

U2 Uned 4: Mathemateg Gymhwysol B (25% o'r cymhwyster)

Mae dwy adran i'r papur: Adran A: Ystadegaeth Adran B: Hafaliadau Differol a Mecaneg

### Course Content:

AS Unit 1: Pure Mathematics A (25% of qualification)

AS Unit 2: Applied Mathematics A (15% of qualification) The paper will comprise two sections: Section A: Statistics, Section B: Mechanics

A2 Unit 3: Pure Mathematics B (35% of qualification)

A2 Unit 4: Applied Mathematics B (25% of qualification) The paper will comprise two sections: Section A: Statistics, Section B: Differential Equations and Mechanics

### Gyrfaoedd posib:

Mae Mathemateg yn gymhwyster uchel ei barch gan ddarpar-gyflogwyr a phrifysgolion gan ddangos eich gallu i feddwl yn rhesymegol ac analytig. Yn ogystal â bod yn bwnc hanfodol os ydych yn ystyried astudio Mathemateg ymhellach yn y Brifysgol, mae'r pwnc hefyd yn werthfawr wrth astudio'r Gwyddorau a Pheirianneg. Ceir cyfleoedd di-ri i fathemategwyr gan gynnwys gwaith fel cyfrifydd, actwari, ystadegydd, athro, bancio, cyfrifiadureg, cyllid, meddygaeth, nyrsio, chwaraeon, economeg, busnes, pensaernïaeth a llawer mwy.

### Possible Careers:

A Mathematics qualification is highly regarded by prospective employers and universities alike and is a good indicator of a logical and analytical mind. Mathematics is essential for students wishing to follow a Mathematical degree course but is also valuable for all Science and Engineering courses. There are plenty of openings for mathematicians including accountancy, actuary, becoming a statistician, teaching, banking, computing, finance, medicine, nursing, sports, economics, business, architecture and more.

**Sylwad Disgybl:**

Gwelais y cwrs yn hynod o fywiog a diddorol, gan gymryd cysyniadau rydw i wedi'u dysgu a'u defnyddio mewn gwahanol ffyrdd. Roedd yn anodd deall rhai cwestiynau, yn enwedig y rhai yn y modiwl ystadegau, ond gyda chymorth yr adran, fe lwyddais!

**Pupil Comment:**

I found it to be incredibly invigorating and interesting, taking concepts I've learned and was learning in the Maths A-Level and using them in different ways. It was difficult to understand certain questions, especially those in the statistics module, but with the support of the department, I succeeded!


# Mathemateg Bellach
## Further Mathematics

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Alaw Ifans
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 100%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 0%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- A TGAU Mathemateg a Rhifedd Haen Uwch

A*- A GCSE Mathematics and Numeracy Higher Tier



### Beth yw Mathemateg Bellach?

Mae Mathemateg Bellach yn gymhwyster UG neu Safon Uwch sy'n ehangu ac yn dyfnhau'r fathemateg a gwmpesir mewn Mathemateg Safon Uwch. Cymerir Mathemateg Bellach ochr yn ochr â UG neu Safon Uwch mewn Mathemateg

### What is Further Mathematics?

Further Mathematics is an AS or A level qualification which both broadens and deepens the mathematics covered in A level Mathematics. Further Mathematics is taken alongside an AS or A level in Mathematics.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Mathemateg Bellach?

Cyflwynir y cwrs mewn modd diddorol a byw gan osod y pwnc o fewn cyd–destun. Bydd pwyslais ar feddwl a chwestiynu. Mae'r cwrs yn heriol ac yn rhoi llawer o fwynhad ond mae gofyn am waith caled, cyson. Byddwch yn astudio cysyniadau newydd fel rhifau dychmygol a matricsau. Byddwn yn eich cynorthwyo i ddeall cysyniadau pwysig er mwyn dyfnhau eich dealltwriaeth o ddefnyddioldeb y pwnc, a chyfle i werthfawrogi ei harddwch.

### What will I learn whilst studying further Mathematics?

The course will be presented in an interesting and relevant fashion. The emphasis will be on clear thinking and probing questioning. This course is very challenging and enjoyable but does require consistent hard work. You will study new concepts such as imaginary numbers and matrices. We will support you to increase understanding and conceptual awareness of the subject matter and hopefully give you a glimpse of the subject's considerable beauty.

### Cynnwys y cwrs:

UG Uned 1: Mathemateg Bur Bellach Arholiad Ysgrifenedig: (13% o'r cymhwyster)

UG Uned 2: Ystadegaeth Bellach (13% o'r cymhwyster)

UG Uned 3: Mecaneg Bellach (13% o'r cymhwyster)

Rhaid i ymgeiswyr gymryd Uned 4 a naill ai Uned 5 neu Uned 6.

U2 Uned 4: Mathemateg Bur Bellach (35% o'r cymhwyster) Mae'r uned hon yn orfodol.

U2 Uned 5: Ystadegaeth Bellach (25% o'r cymhwyster)

U2 Uned 6: Mathemateg Bellach (25% o'r cymhwyster)

Bydd dysgwyr yn sefyll naill ai Uned 5 neu Uned 6.

Bydd y papur yn cynnwys nifer o gwestiynau byr a hirach, cwestiynau strwythuredig ac anstrwythuredig, sy'n gallu cael eu gosod ar unrhyw ran o gynnwys pwnc yr uned. Bydd nifer o gwestiynau'n asesu dealltwriaeth dysgwyr o fwy nag un testun o'r cynnwys pwnc.

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/mathematics-a-as-level

### Course Content:

AS Unit 1: Further Pure Mathematics A: (13% of qualification)

AS Unit 2: Further Statistics A (13% of qualification)

AS Unit 3: Further Mechanics A (13% of qualification)

Candidates must take Unit 4 and either Unit 5 or Unit 6.

A2 Unit 4: Further Pure Mathematics B (35% of qualification). This unit is compulsory.

A2 Unit 5: Further Statistics B (25% of qualification)

A2 Unit 6: Further Mechanics B (25% of qualification)

Learners will sit either Unit 5 or Unit 6.


The paper will comprise a number of shorter and longer, both structured and unstructured questions, which may be set on any part of the subject content of the unit. A number of questions will assess learners' understanding of more than one topic from the subject content.

### Gyrfaoedd posib:

Am y mwyafrif o gyrsiau prifysgol mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) mae lefel A mewn Mathemateg yn angenrheidiol ac yn aml mae AS neu Lefel A mewn Mathemateg Bellach yn aml yn ddewis ffafriol. Mi fydd rhaid i unrhyw fyfyriwr sydd am roi cais mewn am radd mewn cwrs STEM ystyried cymryd Mathemateg Bellach hyd at AS ar y lleiaf, oherwydd mae'r cynnwys ychwanegol yn help i ddilyniant llwyddiannus yn y brifysgol.

### Possible Careers:

If you are planning to take a degree such as Engineering, Sciences, Computing, Finance/Economics, etc., or perhaps Mathematics itself, you will benefit enormously from taking Further Mathematics, at least to AS level. AS Further Mathematics introduces new topics such as matrices and complex numbers that are vital in many STEM degrees.



**Sylwad Disgybl:**
Byddwn yn argymell y cymhwyster i unrhyw un sy'n mwynhau her, ac sydd â meddwl mathemategol

**Pupil Comment:**
I would recommend the qualification to anyone who enjoys a challenge, and is mathematically minded.

# BTEC Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch

## BTEC Advanced Manufacturing Engineering

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs** | Link to the website of the course

https://qualifications.pearson.com/en/home.html

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mr Dewi Davies

**Bwrdd Arholi | Examination Board:** Pearson

**Arholiadau | Examinations:** 0%

**Gwaith cwrs | Coursework:** 100%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

Er mwyn sicrhau'r llwyddiant gorau, fel rheol bydd gan ymgeiswyr bedwar TGAU Gradd C neu gyfwerth, gan gynnwys Mathemateg, Saesneg/Cymraeg a Gwyddoniaeth.

In order to optimise success, candidates will typically have four GCSEs at Grade C or equivalent, including Mathematics, English/Welsh and a Science.



### Beth yw Peirianneg Gweithgynhyrchu?

Mae peirianneg gweithgynhyrchu yn gangen o beirianneg broffesiynol sy'n rhannu llawer o gysyniadau a syniadau cyffredin â meysydd peirianneg eraill fel peirianneg fecanyddol, gemegol, trydanol a diwydiannol. Mae peirianneg gweithgynhyrchu yn gofyn am y gallu i gynllunio arferion gweithgynhyrchu; i ymchwilio ac i ddatblygu offer, prosesau, peiriannau ac offer; ac integreiddio'r cyfleusterau a'r systemau ar gyfer cynhyrchu cynhyrchion o safon gyda'r gwariant cyfalaf gorau posibl.

### What is Manufacturing Engineering?

Manufacturing engineering is a branch of professional engineering that shares many common concepts and ideas with other fields of engineering such as mechanical, chemical, electrical, and industrial engineering. Manufacturing engineering requires the ability to plan the practices of manufacturing; to research and to develop tools, processes, machines and equipment; and to integrate the facilities and systems for producing quality products with the optimum expenditure of capital.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Peirianneg Gweithgynhyrchu?

Mae'r cymwysterau yn rhoi cyfle i ddysgwyr:

- astudio unedau gorfodol, gan gynnwys y pynciau a ganlyn: cyfathrebu ar gyfer technegwyr peirianneg, mathemateg ar gyfer technegwyr peirianneg ac iechyd a diogelwch yn y gweithle peirianneg
- datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol mewn Fframweithiau a Safonau Prentisiaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel calcwlws, lluniadu peirianneg, systemau peiriannau cerbydau a gweithrediadau busnes mewn peirianneg
- datblygu ystod o agweddau cadarnhaol a phriodoleddau proffesiynol sy'n cefnogi perfformiad llwyddiannus yn yr amgylchedd gwaith peirianneg gweithgynhyrchu
- cyflawni cymhwyster Lefel 3 a gydnabyddir yn genedlaethol.

### What will I learn whilst studying Manufacturing Engineering?

The qualifications give learners the opportunity to:

- study mandatory units, including the following topics: communication for engineering technicians, mathematics for engineering technicians and health and safety in the engineering workplace
- develop the knowledge, understanding and skills required in Apprenticeship Frameworks and Standards in England, Wales and Northern Ireland. This includes areas such as calculus, engineering drawing, vehicle engine systems and business operations in engineering
- develop a range of positive attitudes and professional attributes that support successful performance in the manufacturing engineering work environment
- achieve a nationally-recognised Level 3 qualification.

### Cynnwys y cwrs:

**Blwyddyn 12**

Uned 56 - Egwyddorion Trydanol ac Electronig Peirianneg

Uned 3 - Mathemateg ar gyfer Technegwyr Peirianneg (Uned Orfodol)

Uned 1 - Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle (Uned Orfodol)

**Blwyddyn 13**

Uned 8 - Egwyddorion Mecanyddol Systemau Peirianyddol

Uned 7 - Priodoleddau a Chymwysiadau Deunyddiau Peirianyddol

Uned 2 - Cyfathrebu ar gyfer Technegwyr Peirianneg (Uned Orfodol)

### Course Content:

**Year 12**

Unit 56 - Electrical and Electronic Engineering Principles

Unit 3 - Mathematics for Engineering Technicians (Mandatory Unit)

Unit 1 - Health and Safety at Work (Mandatory Unit)

**Year 13**

Unit 8 - Mechanical Principles of Engineering Systems

Unit 7 - Properties and Applications of Engineering Materials


Unit 2 - Communication for Engineering Technicians (Mandatory Unit)

### Gyrfaoedd posib:

Wedi'i anelu at ddysgwyr sy'n gweithio mewn ystod o rolau yn y sector Beirianneg a Gweithgynhyrchu, gallai'r cymhwyster hwn arwain at gyflogaeth mewn nifer o sectorau gan gynnwys Gweithgynhyrchu Modurol, Peirianneg Cynnal a Pheiriannu.

### Possible Careers:

Aimed at learners working in a range of roles in the Engineering and Manufacturing sector, this qualification could lead to employment in a number of sectors including Automotive Manufacturing, Maintenance Engineering or Machining.





# Saesneg - Iaith a Llenyddiaeth
## English Language and Literature

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mrs Awel Emlyn
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 80%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 20%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Haen Uwch (Rhaid cael y ddau)

A*- C GCSE English Language and Literature Higher Tier (Must have both)



### Beth yw Saesneg Iaith a Llenyddiaeth?

Dyluniwyd TAG UG a Safon Uwch TAG mewn iaith a llenyddiaeth Saesneg i hyrwyddo astudiaeth integredig o iaith a llenyddiaeth. Mae'n galluogi dysgwyr i ddatblygu deallusrwydd aeddfed trwy archwilio ystod o destunau llenyddol ac anllenyddol

### What is English Language and Literature?

The WJEC GCE AS and A level in English language and literature is designed to promote the integrated study of English language and English literature. It enables learners to develop intellectual maturity through exploring a range of literary and non-literary texts

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Saesneg ?

Ydych chi'n rhywun sy'n hoff iawn o lenyddiaeth Saesneg, ond efallai hefyd yn hoff o astudio iaith ac ysgrifennu creadigol? Os oes gennych ddiddordeb mewn iaith a llenyddiaeth, dyma'r cwrs i chi. Mae'r cymhwyster yma yn gyfuniad o elfennau Lefel A Llenyddiaeth a Lefel A Iaith. Mae yna gyfle i astudio llenyddiaeth traddodiadol a chyfoes wrth gwrs, ond hefyd i ysgrifennu'n greadigol. Yn ogystal â darnau ysgrifenedig byddwch yn trafod ac astudio iaith lafar.

### What will I learn whilst studying English Language and Literature?

Are you someone who enjoys literature, but you also fancy studying a little more language, coupled with some more creative writing? This qualification is a combination of elements of the Literature and Language A Levels, though the texts are largely different. You will be given the opportunity to study traditional and contemporary texts, both written and spoken.

### Cynnwys y cwrs:

Uned 1 Dadansoddi cerddi ac ysgrifennu creadigol

Uned 2 Drama fodern e.e. A Streetcar Named Desire a thestun anllenyddol e.e. In Cold Blood, Truman Capote

Uned 3 Shakespeare e.e King Lear

Uned 4 Testunau heb eu hastudio o'r blaen (un llafar) a nofel e.e. The Colour Purple, Alice Walker

Uned 5 Astudio math o lenyddiaeth e.e. gothig, dystopia, rhyfel ac ysgrifennu creadigol

### Course Content:

Unit 1 Poetry and unseen texts and creative writing

Unit 2 Modern drama e.g. A Streetcar Named Desire and non-fiction e.g. In Cold Blood, Truman Capote

Unit 3 Shakespeare e.g King Lear

Unit 4 Unseen texts (one of which will be spoken language) and prose study e.g. The Colour Purple, Alice Walker

Unit 5 Genre study e.g. gothic, dystopia, war and creative writing

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/english-language-and-literature-as-a-level



### Gyrfaoedd posib:

Mae'r pwnc yn sicr yn cydfynd gyda'r mwyafrif o bynciau eraill ac yn gymhwyster teilwng ar gyfer astudio ystod eang o gyrsiau coleg. Rhydd agoriad i yrfau amrywiol megis y gyfraith a newyddiaduriaeth

### Possible Careers:

English Language and Literature certainly complements most subjects and is a highly regarded academic qualification for entry into a variety of university courses and is a great opening to a range of careers such as law and journalism

**Sylwad Disgybl:**

Mae'n deimlad braf i fod yn rhan o adran sydd mor angerddol am y pwnc, a does dim amheuaeth am hynny! Ceir cyfuniad o waith heriol a hiwmor mewn gwersi Saesneg. Rwy'n mwynhau'r elfen greadigol ond hefyd dal yn falch iawn o astudio llenyddiaeth pwysicaf yr iaith.

**Pupil Comment:**

It's a good feeling to be part of a department which is so passoniate about the subject, and there is no doubt about that! In English lessons you can expect a combination of challenging work and good humour. I enjoy the creative aspect of this subject but I am still very pleased to be studying the most important texts in the English language.

# Llenyddiaeth Saesneg
## English Literature

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs** | **Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/english-literature-as-a-level


Sganiwch

**Arweinydd Pwnc** | **Subject Leader:** Mrs Awel Emlyn
**Bwrdd Arholi** | **Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau** | **Examinations:** 20%
**Gwaith cwrs** | **Coursework:** 80%

**Anghenion Mynediad** | **Entry Requirements:**

A*- C TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Haen Uwch (Rhaid cael y ddau)

A*- C GCSE English Language and Literature Higher Tier (Must have both)



### Beth yw Llenyddiaeth Saesneg?

Mae TAG UG a Safon Uwch CBAC mewn llenyddiaeth Saesneg yn annog dysgwyr i ddatblygu eu diddordeb mewn llenyddiaeth ac astudiaethau llenyddol.

### What is English Literature?

The WJEC GCE AS and A Level in English literature encourages learners to develop their interest in and enjoyment of literature and literary studies.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Llenyddiaeth Saesneg?

Mae Safon Uwch Llenyddiaeth Saesneg wedi bod yn bwnc poblogaidd erioed. Mae hyn, heb amheuaeth, oherwydd natur y cwrs, sy'n cynnig cyfleoedd i astudio materion hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol trwy gyfrwng llenyddiaeth. Byddwch yn cael eich annog i ddatblygu fel darllenwyr hyderus, annibynnol ac ystyriol mewn ystod eang o weithiau llenyddol clasurol a chyfoes, yn ogystal ag ehangu eich gallu i gymharu testunau ac i ddatblygu gwerthfawrogiad o bwysigrwydd dylanwadau diwylliannol a hanesyddol ar ddarllenwyr ac awduron.

### What will I learn whilst studying English ?

English Literature at A-Level has always been a popular subject. This is undoubtedly due to nature of the course, providing opportunities to study historical, cultural and social issues through literary texts. You will be encouraged to develop as confident, independent and reflective readers of a range of classic and contemporary texts and learn to reflect on your own responses to texts. During the course, we will explore comparisons and connections between texts and deepen your appreciation of the significance of cultural and historical influences upon readers and writers.

### Cynnwys y cwrs:

Uned 1: Rhyddiaith cyn 1900 e.e. Jane Eyre (Bronte) a Drama e.e. A Streetcar Named Desire (Williams)

Unit 2: Barddoniaeth ar ôl 1900 e.e. Owen Sheers, Seamus Heaney

Unit 3: Barddoniaeth cyn 1900 e.e. Milton a cherddi heb eu hastudio o'r blaen

Unit 4: Shakespeare e.e. King Lear

Unit 5: Gwaith cwrs – darllen dau ddarn o ryddiaith o gyfnodau gwahanol e.e. The Great Gatsby, Atonement

### Course Content:

Unit 1: Prose fiction pre-1900 e.g. Jane Eyre (Bronte) and Drama e.g. A Streetcar Named Desire (Williams)

Unit 2: Poetry Post – 1900 e.g. Owen Sheers, Seamus Heaney

Unit 3: Poetry pre-1900 and unseen poetry e.g. Keats

Unit 4: Shakespeare e.g. King Lear

Unit 5: Coursework – reading of two prose texts from different periods, one post 2000 e.g. The Great Gatsby, Atonement

### Gyrfaoedd posib:

Mae'r pwnc yn sicr yn cydfynd gyda'r mwyafrif o bynciau eraill ac yn gymhwyster teilwng ar gyfer astudio ystod eang o gyrsiau coleg. Rhydd agoriad i yrfau amrywiol megis y gyfraith a newyddiaduriaeth.



### Possible Careers

English Literature certainly complements most subjects and is a highly regarded academic qualification for entry into a variety of university courses and is a great opening to a range of careers such as law and journalism.

### Sylwad Disgybl:

Mae astudio Llenyddiaeth Saesneg wedi bod yn agoriad llygad i fi mewn cymaint o ffyrdd. Mae'r gwersi yn heriol ond yn llawn hwyl a thrafodaethau difyr am y testunau. Mae'r testunau eu hunain yn amrywio, o 'machismo' Stanley yn New Orleans i fywyd Fictorianaidd yn Jane Eyre. Ceir teimlad o gymuned yn yr Adran Saesneg, a rwyf wrth fy modd yn rhan ohoni!

### Pupil Comment:

Studying English Literature has really broadened my perspective already. Though challenging, the lessons are full of fun and fascinating discussions about the texts. The texts themselves are varied, from the machismo of Stanley in a very hot New Orleans to the restrictive life lived by Jane Eyre in Lowood School. There is a real sense of community in the English Department, and I love being part of it!

# Sbaeneg
## Spanish

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Mari Davies
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 100%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 0%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Sbaeneg Haen Uwch

A*- C GCSE Spanish Higher Tier



### Beth yw Sbaeneg?

Mae'r cwrs Safon Uwch Sbaeneg wedi'i anelu at fyfyrwyr sydd ag angerdd am ieithoedd ac â diddordeb mewn diwylliant hispanaidd. Bydd Safon Uwch Sbaeneg yn rhoi cyfle i chi ennill ystod eang o sgiliau ieithyddol gan gynnwys geirfa helaeth ac ystod o strwythurau gramadegol. Yn ystod y cyrsiau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch bydd myfyrwyr yn cael cyfle i archwilio materion a thueddiadau cymdeithasol yn ogystal â diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig yn y byd Sbaeneg ei hiaith. Mae Sbaeneg yn bwnc cydnabyddus ac academaidd sydd yn agor y drysau i'r byd o'ch cwmpas.

### What is Spanish?

The Spanish A-level course is aimed at students who have a passion for languages and are interested in Hispanic culture. Studying Spanish at A-level will give you the opportunity to gain a wide range of linguistic skills including an extensive vocabulary and a range of grammatical structures. During the AS and A Level course students will have the opportunity to explore social issues as well as political, intellectual and artistic culture in the Spanish-speaking world. Spanish is a well-recognised and academic subject that opens the doors to the world around you.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Sbaeneg?

Bydd y gwersi'n cynnwys cyfnodau dysgu themâu a thrafodaethau dosbarth er mwyn gwella gwaith ysgrifenedig a sgiliau llafar. Bydd gwaith gramadegol yn cael ei blethu drwy'r holl wersi er mwyn gwella cywirdeb a dealltwriaeth o strwythur yr iaith. Bydd disgyblion yn cael eu hannog i ddefnyddio amrediad eang o adnoddau gan gynnwys unedau a nodiadau'r ysgol, y we a gwefannau Quizlet a Memrise. Bydd gwaith llafar, ysgrifenedig a phrofion gramadeg yn cael eu cyflawni drwy gydol y ddwy flynedd. Yn ystod y cwrs byddwch hefyd yn ehangu eich ymwybyddiaeth o wledydd Sbaeneg eu hiaith drwy edrych yn fanylach ar ddiwylliant y gwledydd hyn gan gynnwys astudio llenyddiaeth a ffilmiau Sbaeneg a'u cyd-destun.

### What will I learn whilst studying Spanish?

The lessons will include themed learning periods and class discussions to improve written work and oral skills. Grammatical work will be woven through all the lessons in order to improve the accuracy and understanding of the structure of the language. Pupils will be encouraged to use a wide range of resources including school units as well as sites such as Quizlet and Memrise. Oral, written and grammar tests will be carried out throughout the two years. During the course you will also broaden your awareness of Spanish-speaking countries by taking a closer look at the culture of these countries including studying Spanish literature and films and their contexts.

### Cynnwys y cwrs:

Thema 1: (UG) Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Sbaeneg ei hiaith

Thema 2: (UG) Deall y byd Sbaeneg ei iaith

Thema 3: (Safon Uwch) Amrywiaeth a Gwahaniaeth

Thema 4: (Safon Uwch) Y Ddwy Sbaen: 1936 ymlaen

### Course Content:

Theme 1: (AS) Living as a young person in a Spanish-speaking society

Theme 2: (AS) Understanding the Spanish-speaking world

Theme 3: (A level) Diversity and difference

Theme 4: (A-level) The two Spains: 1936 onwards

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/spanish-as-a-level



### Gyrfaoedd posib

Mae ieithoedd yn agor drysau i ystod eang tu hwnt o yrfaoedd megis swyddi ym myd addysg, y gyfraith, y cyfryngau, recriwtio a llawer mwy. Mae prinder mawr o bobl ym Mhrydain sy'n medru siarad ieithoedd tramor, felly mae astudio iaith fodern ar gyfer Lefel A yn sgil perthnasol mewn pob math o feysydd, ac yn sgil sy'n cael ei ystyried yn ddeniadol iawn gan brifysgolion a chyflogwyr. Sbaeneg yw un o ieithoedd mwyaf rhyngwladol Ewrop sydd yn eich galluogi i gyfathrebu mewn 22 o wledydd led led y byd. Os ewch chi ymlaen i'r brifysgol, bydd cyfle i chi dreulio blwyddyn yn un o'r gwledydd hyn fel rhan o'ch gradd.



### Possible careers

Languages open doors to a wide range of careers within a variety of different fields such as law, education, publishing, recruitment and many more. There is a great shortage of people in the UK who can speak foreign languages, consequently studying a modern language at A Level is a relevant skill which prepares students for a wide variety of careers. It is also a skill that is seen as very attractive by universities and employers. Spanish is one of Europe's most international languages which allows you to communicate in 22 countries around the World. If you choose to study Spanish at university you will have the chance to spend a year in one of these countries as part of your degree.

**Sylwad Disgybl:**

"Penderfynais i gymryd Sbaeneg fel un o fy mhynciau Lefel A gan fy mod yn teimlo bod cael y gallu i siarad iaith arall, ac un o ieithoedd mwyaf pwerus y byd, yn agor cymaint o ddrysau ar gyfer y dyfodol."

**Pupil Comment:**

"I decided to take Spanish as one of my A-level subjects as I felt that having the ability to speak another language, and one of the most powerful languages in the world, opens so many doors for the future."

# Seicoleg
## Psychology

Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course
https://www.wjec.co.uk/qualifications/psychology-as-a-level


Sganiwch

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Elin Angharad
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 100%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 0%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Mathemateg/Rhifedd
A*- B mewn un pwnc TGAU Gwyddoniaeth

A*- C GCSE Mathematics/Numeracy
A*- B GCSE in one Science







### Beth yw Seicoleg?

Seicoleg yw'r astudiaeth wyddonol o'r meddwl dynol a'i swyddogaethau, yn enwedig rheini sydd yn dylanwadu ar ymddygiad. Mae yn faes eang iawn sydd yn cwmpasu meddyliau, ymddygiad, datblygiad, personoliaeth, emosiynau, cymhelliant a llawer mwy. Mae yn ymdrin gyda egwyddorion haniaethol (e.e y meddwl anymwybodol) a dryswch niwrolegol strwythur yr ymennydd. Ymhellach mae trafodaethau athronyddol am statws y pwnc fel gwyddoniaeth a'r cymhwysiadau posibl i sefyllfaoedd yn y byd go iawn.

### What is Psychology?

Psychology is the scientific study of the human mind and its functions, in particular those that impact on behaviour. It is a wide ranging field compassing thoughts, emotions, development, motivation, instincts, genetics, morals and much more. It deals with both abstract concepts (e.g. love) and the complexity of the neurological miracle of the brain. Further more, there are philosophical debates regarding the status of psychology as a science and the applications to every day life. The aim is to ensure that the student gains an appreciation of the diversity of human experiences.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Seicoleg?

Mae y cwrs yn gyflwyniad rhagorol i nifer eang o ddamcaniaethau a theoriau hanesyddol a chyfredol o fewn y ddisgyblaeth heriol o seicoleg. Mae cyfle i ystyried pam ein bod yn breuddwydio, beth sydd yn creu troseddwr, pam fod gan rai unigolion ffobia am fytymau, beth yw y dull mwyaf effeithiol o gosbi plant, ai mamau yw y gorau i fagu plant, sut i gael perthynas ramantus lwyddiannus, a ddylen ni drin sgitsoffrenia, pam fod yr octopws mor bwysig i ddeall sut mae pobl yn dysgu ... a llawer mwy.

Bydd yn rhoi cyfle i'r dysgwr fynegi barn tra yn rhoi ystyriaeth i dystiolaeth wyddonol gan amrywiol ymchwilwyr ac athronyddwyr.

### What will I learn whilst studying Psychology?

The course is an excellent introduction to a wide range of theories, both historical and contemporary within the challenging science of psychology. There is an opportunity to study what creates a criminal, why some individuals have a phobia of buttons, what is the most effective way of punishing children, the ethical debate regarding the responsibility of mothers, how to form a successful romantic relationship, what can the octopus teach us about learning ... and much more.

There will be an expectation for the learner to express an opinion whilst considering the scientific evidence from researchers and philosophers.

### Cynnwys y cwrs:

O'r gorffennol i'r presennol

Defnyddio cysyniadau seicolegol

Goblygiadau yn y byd real (trosedd, caethiwed, sgitsoffrenia, straen, bwlio ac awtistiaeth)

Dulliau ymchwil cymhwysol (gan gynnwys ymchwil bersonol)

### Course Content:

From past to present (a journey through psychology)

Research methods and contemporary debates

Psychology in the real world (including schizophrenia, crime and autism)

Applied research methods (including personal investigations)

### Gyrfaoedd posib

Nyrs, seicolegydd (addysg, troseddol, iechyd, chwaraeon), ymchwilydd, niwrolegydd, genetegydd, yr heddlu, y gyfraith, busnes, dysgu, therapydd.

### Possible Careers

Nursing, psychologist (education, criminal, health, environmental), researcher, neurologist, geneticist, the police, the law, teaching, therapist.

**Sylwad Disgybl:**

"Dwi wedi synnu pa mor anhygoel yw profiadau pobl a pa mor rhyfedd yw rhai o'r esboniadau amdanynt. Mae pob gwers yn gwneud i mi feddwl!"

" Mae yn dda gallu trafod a rhoi barn fy hyn am syniadau ond hefyd edrych ar syniadau seicolegwyr enwog a dylanwadol iawn."

**Pupil Comment:**

"I had always been interested in human behaviour and so Psychology was a natural choice for me at A level. I was not prepared however for how fascinating and diverse human experiences can be and how the theories can impact on everyday life".

"Much harder than I thought – but also much, much more enjoyable. I even enjoyed the maths"'

# Technoleg Ddigidol
## Digital Technology

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mrs Laura Watkins
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 50%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 50%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU TGCh

A*- C GCSE ICT



### Beth yw Technoleg Ddigidol?

Mae'r cymhwyster yma yn meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'r technolegau digidol a ddefnyddir gan unigolion a sefydliadau dros y byd, gan gynnwys sut maent wedi datblygu a sut maent yn parhau i newid.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae datblygiadau arloesol mewn technoleg ddigidol, a'r lefelau cynyddol o gysylltedd rhyngddynt, yn effeithio ar fywydau'r rhai sy'n eu defnyddio ac ar y gymdeithas ehangach.

Bydd dysgwyr hefyd yn meithrin sgiliau ymarferol wrth ddatblygu cynhyrchion digidol creadigol a datrysiadau digidol i broblemau a wynebir gan sefydliadau.

### What is Digital Technology?

The qualification advances learners' understanding of the digital technologies that are used by individuals and organisations across the world, including how they have developed and how they continue to change.

The qualification enables learners to develop a deep understanding of how innovations in digital technology, and the increasing levels of connectivity between them, impact the lives of those who use them and the wider society.

Learners will also develop practical skills in developing both creative digital products and digital solutions to problems faced by organisations.

### Beth fyddaf yn dysgu o fewn Technoleg Ddigidol?

Mae'r cymhwyster eang yma yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr dysgu am:

- systemau digidol sydd yn gysylltiedig â dyfeisiau clyfar
- datblygiad Deallusrwydd Artiffisial
- cylchred oes datblygu technoleg ddigidol
- profiad y defnyddiwr a'r rhyngweithio rhwng dyn a chyfrifiadur wrth ddatblygu systemau digidol



- casglu, storio, dadansoddi a defnyddio data
- swyddogaethau, dibenion a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan unigolion a sefydliadau
- seiberddiogelwch
- rhwydweithiau technoleg ddigidol

Bydd cyfle i ddysgwyr datblygu eu sgiliau ymarferol wrth ymchwilio, cynllunio, dylunio, creu, profi ac adolygu gem o'u ddewis a gwefan trafodiadol o'u ddewis.

### What will I learn whilst studying Digital Technology?

The qualification provides the learners with the opportunity to learn about:

- connected digital systems and smart devices
- the development of Artificial Intelligence
- digital technology development life cycles
- user experience and human computer interaction in digital systems development
- collecting, storing, analysing, and using data
- functions, purposes, and uses of social media by individuals and organisations.
- cyber security
- digital technology networks.

Learners will also have an opportunity to develop their practical skills by investigating, planning, designing, creating, testing, and reviewing a game of their choice and a transactional website of their choice.

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/ug-safon-uwch-technoleg-ddigidol/



### Cynnwys y cwrs:

Uned 1: Arloesi ym maes Technoleg Ddigidol

Uned 2: Arferion Digidol Creadigol

Uned 3: Systemau Cysylltiedig

Uned 4: Datrysiadau Digidol

### Course Content:

Unit 1: Innovation in Digital Technology

Unit 2: Creative Digital Practices

Unit 3: Connected Systems

Unit 4: Digital Solutions

### Gyrfaoedd posib

Mae'r cymhwyster hon wedi ei llunio i roi sail addas ar gyfer astudio unrhyw gwrs o fewn y maes technolegau digidol, neu faes astudio perthynol, mewn addysg bellach neu uwch a/neu baratoad ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

### Possible Careers:

The qualification has been designed to provide a suitable foundation for the study of digital technology, or a related area of study, at further or higher education and/or preparation for future employment.

**Sylwad Disgybl:**

Mae'r cwrs hyn yn un anhygoel sy'n ddysgu ni sgiliau angenrheidiol am y dyfodol. Mae technolegau ddigidol yn allweddol mewn bywydau pob un ohonych ac mae'r cwrs yma yn rhoi'r sgiliau hanfodol o greu gwefannau a gemau. Mae'r gwaith yn gallu fod yn heriol ond mae'n hwyl.

Credaf fod y cwrs Technoleg Ddigidol yn ddefnyddiol, ac mi rydw i'n mwynhau'r gwaith.

**Pupil Comment:**

This course is fantastic and we are learning necessary skills for the future. Digital technologies are key in the lives of all of us and this course provides the essential skills of creating websites and games. The work can be challenging but it's also enjoyable.

I believe that the Digital Technology course is useful, and I enjoy the work.

# Teithio a Thwristiaeth
## Travel and Tourism

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Mrs Heulwen Pryce
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 40%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 60%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A* - E TGAU Cymraeg Iaith
A* - E TGAU Saesneg Iaith

A* - E GCSE Welsh Language
A* - E GCSE English Language



### Beth yw Teithio a Thwristiaeth?

Mae cymwysterau CBAC Lefel 3 mewn Twristiaeth ar gyfer Cymru a Lloegr wedi cael eu llunio i gyflwyno i ddysgwyr y gwybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau sylfaenol hynny sy'n gysylltiedig â sefydliadau a gweithgareddau twristiaeth. Bydd y cymwysterau yn darparu sylfaen eang ar gyfer addysg bellach neu uwch neu ar gyfer symud ymlaen i'r byd gwaith.

### What is Travel and Tourism?

The WJEC Level 3 qualifications in Tourism for England and Wales are designed to provide learners with the underpinning knowledge, understanding and skills associated with tourism organisations and activities. The qualifications will provide a broad basis for further or higher education or for moving into employment.

### Beth fyddaf yn ei astudio o fewn Teithio a Thwristiaeth?

- Y mathau o dwristiaid a chyrchfannau twristiaeth yn y DU
- Opsiynau cyflogaeth yn niwydiant twristiaeth y DU
- Y cymhelliant i deithio, apêl cyrchfannau twristiaeth byd-eang a'r amrywiaeth ohonyn nhw
- Ymgyrchoedd marchnata ar gyfer cyrchfannau twristiaeth
- Yr amrywiaeth o bwysau allanol ac anghenion a disgwyliadau newidiol gan gwsmeriaid
- Datblygiadau mewn trafnidiaeth a thechnoleg yn y diwydiant twristiaeth byd-eang
- Ymwybyddiaeth amgylcheddol a materion cyfredol sy'n effeithio ar y diwydiant twristiaeth byd-eang
- Cynllunio digwyddiadau twristiaeth a datblygu amserlenni teithio ar gyfer teithiau yn y DU
- Natur twristiaeth tuag i mewn a domestig y DU.

### What will I learn whilst studying Travel and Tourism?

- The types of tourists and UK tourism destinations Tourism employment options within the UK industry
- The motivation for travel and the range and appeal of worldwide tourism destinations
- Marketing campaigns for tourism destinations
- The of external pressures and changing customer needs and expectations
- Developments in transport and technology within the global tourism industry
- Environmental awareness and current issues affecting the global tourism industry
- The planning of tourism events and the development of itineraries for UK tours
- The nature of UK inbound and domestic tourism

### Cynnwys y cwrs:

**Unedau Gorfodol**

- Y Diwydiant Twristiaeth Byd-eang
- Cymru fel Cyrchfan i Dwristiaid

Sganiwch

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs | Link to the website of the course**
https://www.wjec.co.uk/qualifications/level-3-tourism-teaching-from-2023

**Unedau Dewisol**

- Rheoli Profiad y Cwsmer
- Cyrchfannau Byd-eang
- Cynllunio, Cydlynu a Chynnal Digwyddiad
- Marchnata Digidol ar gyfer Twristiaeth a Digwyddiadau
- Cyflogaeth ym maes Twristiaeth a Digwyddiadau
- Addasu i Newid yn y Diwydiant Twristiaeth

Bydd 1 uned orfodol (arholiad) a 2 dewisol (gwaith cwrs) ym Mlwyddyn 12 ac yna'r un drefn ym Mlwyddyn 13.

### Course Content:

**Compulsory Units**

- The Global Tourism Industry
- Wales as a Tourist Destination

**Optional Units**

- Managing the Customer Experience
- Global Destinations
- Planning, Coordinating and Running an Event
- Digital Marketing for Tourism and Events
- Employment in Tourism and Events
- Adapting to Change in the Tourism Industry

There will be 1 compulsory (exam) and 2 optional (coursework) units in Year 12 and the same in Year 13.

### Gyrfaoedd posib

Mae cymwysterau CBAC Lefel 3 mewn Twristiaeth ar gyfer Cymru a Lloegr wedi cael eu llunio i gyflwyno i ddysgwyr y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sylfaenol hynny sy'n gysylltiedig â sefydliadau a gweithgareddau twristiaeth. Bydd y cymwysterau yn darparu sylfaen eang ar gyfer addysg bellach neu uwch neu ar gyfer symud ymlaen i'r byd gwaith.

### Possible Careers:

The WJEC Level 3 qualifications in Tourism for England and Wales are designed to provide learners with the underpinning knowledge, understanding and skills associated with tourism organisations and activities. The qualifications will provide a broad basis for further or higher education or for moving into employment.






**Sylwad Disgybl:**

""Mae'r cwrs yn hwylus ac rwyf wedi mwynhau y teithiau i Longleat, Llundain a Chaerdydd"

**Pupil Comment:**

" I feel I made the right decision to take Travel and Tourism, its very enjoyable and i have enjoyed learning about new places"

# Troseddeg
## Criminology

**Arweinydd Pwnc | Subject Leader:** Miss Elin Angharad
**Bwrdd Arholi | Examination Board:** CBAC | WJEC
**Arholiadau | Examinations:** 50%
**Gwaith cwrs | Coursework:** 50%

**Anghenion Mynediad | Entry Requirements:**

A*- C TGAU Cymraeg
A*- C TGAU Mathemateg/Rhifedd

A*- C GCSE Welsh
A*- C GCSE Mathematics/Numeracy



### Beth yw Troseddeg?

Mae Troseddeg yn bwnc cymharol gyfoes er fod ei wreiddiau yn mynd nol i waith Lombroso yn yr 1890au. Ei bwrpas yw cyfuno seicoleg, cymdeithaseg, gwleidyddiaeth a'r gyfraith i astudio troseddu, troseddwyr a throseddau ymhob cam o'r ymddygiad. Astudir astudiaethau achos o droseddau go iawn ac felly codir cwestiynau anodd, heriol a sensitif. Ystyrir troseddau nad ydynt efallai yn gyfarwydd i'r boblogaeth gyffredinol ac ystyrir sut gellir codi ymwybyddiaeth am y troseddau hyn (e.e. troseddau 'er anrhydedd').

Gan ei fod yn bwnc newydd ym mlwyddyn 12, disgwylir bydd y disgyblion wedi gwneud ymdrech i ymchwilio i natur y pwnc ac yn ymwybodol o gwestiynau allweddol o fewn y maes (e.e. cyfreithiau newydd, achosion drwg-enwog Prydeinig) cyn gwneud ymroddiad i astudio y cwrs.

Yn ogystal bydd sgiliau 'creu ymgyrch lwyddiannus' yn cael ei dysgu, o fewn cyd-destun codi ymwybyddiaeth am droseddau, ond gellir cymhwyso y sgiliau hyn i fusnes, marchnata a'r cyfryngau gan fod cyfle i fod yn greadigol yma i gyfleu neges berswadiol i eraill.

### What is Criminology?

Despite its early origins in the work of Lombroso in the 1890s, criminology is a comparatively modern subject. Its purpose is to combine the disciplines of psychology, sociology, law and politics to study law-breaking, the criminal and crimes in every stage of the behaviour. Real crime case studies are studied which therefore raise very difficult questions, which can be challenging and sensitive. Crimes which may not be familiar to the population in general are studied and we consider how awareness of these crimes can be increased to ensure a higher degree of reporting (e.g. crimes of honour).

As it is a new subject in year 12, it is expected that the students will have made an effort to research the nature of the discipline and to be aware of the key questions (e.e. new laws, infamous British crimes) before they commit to the course.

In addition, 'creating a successful campaign' will be taught, in the context of raising awareness of crimes, and these skills could be applied to business, marketing and the media with an opportunity to be creative in presenting persuasive messages to others.

### Beth fyddaf yn ei astudio o fewn Troseddeg?

Yn y flwyddyn gyntaf, cei di dy gyflwyno i egwyddorion sylfaenol y pwnc: yr amrywiol fathau o droseddau a fydd yn cwmpasu y cyfarwydd (e.e. llofruddiaeth) i'r llai amlwg (e.e. troseddau technegol) ac hefyd y troseddau hynny had ydynt yn cael eu astudio yn aml oherwydd tueddiadau cymdeithasol (e.e. troseddau coler wen). Pwrpas gwybod a deall am drosedd yw targedu dulliau i'w atal er mwyn osgoi mwy o ddioddefwyr a hefyd sicrhau fod unigolion sydd gyda risg uchel o fod yn droseddwyr yn cael eu hamddiffyn. Mae effaith trosedd yn costio biliynau o bunnoedd i'r wladwriaeth felly mae yr oblygiadau economaidd yn anferthol.

Ystyrir sut mae'r gwahanol esboniadau am pam fod unigolyn yn {dewis} troseddu yn amrywio o ddylanwadau biolegol (e.e. strwythur yr ymennydd) i resymau cymdeithasol (e.e. tlodi) hyd at esboniadau mwy haniaethol (e.e. gyriant yr anymwybodol ar ymddygiad yr unigolyn). Mae hyn felly yn gorwedd ymysg Gwyddoniaethau Cymdeithasol a bydd dibyniaeth ar ddealltwriaeth o egwyddorion gwyddonol yn amlwg yma.

Yn ail flwyddyn y cwrs, symuda y ffocws bennaf i waith yr heddlu a'r system cyfiawnder. Felly o wybod pam fod unigolion yn troseddu gofynnir sut gellir delio gyda nhw – a ellir eu trin, a ddylid eu cosbi, beth yw cyfrifoldeb y gymdeithas gyfan? Bydd trafodaeth am sut mae gwledydd eraill yn delio gyda troseddau a sut mae hyn yn cael dylanwad ar ystadegau troseddol (mae cymariaethau gyda gwledydd Sgandinafiad yn amlwg yma).

Ymhellach, byddwn yn mynd i gyfeiriad CSI i weld sut caiff tystiolaeth o leoliad y drosedd eu brosesu. Mae hyn yn ymdrin gyda tystiolaeth ffisegol (e.e. olion bysedd), biolegol (e.e. DNA) a hefyd cliwiau am Modus Operandi y trosedd – dyma yw y patrymau cyson yn ymddygiad yr unigolyn

**Cyswllt i'r wefan ar gyfer y cwrs** | Link to the website of the course
https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/lefel-3-troseddeg

Sganiwch

sydd yn rhoi cliwiau amlwg am pwy allant fod. Yn ychwanegol mae proffilio daearyddol yn medru rhoi syniad o'r ardal lle mae y troseddwr yn byw (h.y. a ydynt yn gyfarwydd gyda yr ardal ai peidio).

Yn olaf, ar ôl darganfod y troseddwr ystyrir sut caiff ei drin gan y wladwriaeth – beth sydd fwyaf addas i sicrhau tegwch i'r unigolion ond hefyd cyfiawnder i'r dioddefwyr ac i'r gymdeithas yn ehangach.



### What will I learn whilst studying Criminology?

In the first year, you will be introduced to the basic concepts of the subject: the variety of crimes which will include the familiar (e.g. murder) to the less obvious (e.g. technological crimes) and also those behaviours which may not be considered crimes due to social biases (e.g. white collar crimes).

The purpose of knowing and understanding about crimes is to ensure that more victims can be avoided and to ensure that those individuals at risk of being criminals are protected. The impact of crime costs billions to the state each year, therefore the economic implications are significant.

The various reasons why an individual {chooses to} offend are studied varying from the biological influences (e.g. brain structures) to social reasons (e.g. poverty) and towards the more abstract explanations (e.g. unconscious drives on the individual). This therefore sits within the Social Sciences and there is a dependence on understanding scientific principles.


The second year of the course shifts the focus onto the work of the police and the criminal justice system. Therefore, from understanding why an individual offends moves towards how they can be dealt with – can they be treated, should they be punished and what is the responsibility of society. There will be a discussion about how different countries deal with crimes and how this influences criminal statistics (there will be a clear comparison with Scandinavian countries here).

Furthermore, we will move towards the direction of CSI to study how evidence from the scene of crime is collected and processed. This involves the physical evidence (e.g. fingerprints), biological (e.g. DNA) and clues regarding the Modus Operandi of the crime – which are the consistent patterns of behaviours which give clear clues about the individual. In addition, geographical profiling can provide a very clear idea of the area in which the offender lives (i.e. are they familiar with the region).

Finally, after discovering the offender there needs to be a consideration of how the state deals with the individual – what is fair on the individual but also ensures justice for the victim and society.

### Cynnwys y cwrs:

- Newid ymwybyddiaeth o drosedd
- Damcaniaethau troseddegol
- O leoliad y drosedd i'r llys
- Trosedd a chosb




### Course Content:

- Changing awareness of crime
- Criminological theories
- From the location of the crime to the court
- Crime and punishment

### Gyrfaoedd posib

Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n cwblhau cwrs Troseddeg yn llwyddiannus yn aros o fewn swyddi yn y System Cyfiawnder, gan gynnwys yr heddlu, cyfreithwyr, ymchwilwyr fforensig neu waith academaidd o ymchwil yn y meysydd o seicoleg, cymdeithaseg neu troseddeg.

### Possible Careers:

Most of those who complete a course in Criminology will pursue further careers in the Criminal Justice System, including the police force, solicitors, forensic researchers or academic research in the fields of psychology, sociology or criminology.

YSGOL GYMRAEG

BRO MORGANNWG